CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071

Rhifyn 384 digidol
Mehefin 2020

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Cofio Oriel Jones Llanybydder

Tudalen 13

Cadwyn Cyfrinachau arall

Tudalen 14

Llwyddiant lleol yn yr Eisteddfod T

Tudalennau 4 a 18

Arwyr y Gwasanaeth Iechyd

Meinir Jones, Cwmann.

Dafydd Williams, Cwmann.

Anwen Butten, Cellan.

Lois Thomas, Llanllwni.

Yng nghyfnod ansicr y Coronafeirws lle mae pawb yn gwerthfawogi gwasanaeth y rhai sydd ar flaen y gad, ceir cofnod o ddiwrnod gwaith yr arwyr lleol uchod ar dudalennau 10 a 11.

Rhythwyn Evans

Dyma bennill gan Twynog Davies i gydnabod gorchest anhygoel Rhythwyn Evans, Maes yr Adwy, Silian a gododd dros £52,000 tuag at Fwrdd Iechyd Hywel Dda yn ddiweddar wrth gerdded o gwmpas ei gartref 91 o weithiau ar ddiwrnod ei ben-blwydd yn 91 oed.

Cafodd ei ysbrydoli gan Gapten Tom Moore, er mwyn helpu curo'r epidemig COVID-19.

Mae'n ymdrech i'w glodfori,
Ffrind da, rhaid oedd cefnogi,
Wrth gerdded profwyd haelioni,
Samariad yw Rhythwyn i ni.

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair, Llambed, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brêcs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

approved garages.co.uk

GAREJ RHANBARTHOL Y FLWYDDYN 2019 CYMRU

Peiriant Poeth i Olchi Ceir
ar agor 24/7

01570 422305 neu 07773338048
www.brondeifigarage.co.uk
brondeifi-garage@btconnect.com

CYFRi

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 College Street, Lampeter, Ceredigion. SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn ailfeddiannu am eich cartref.

LHP

CYFRIFWYR
ARCHWILWYR
YMGYNGHORWYR

CYFRIFWYR SIARTREDIG ICAEW

81 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AB

Uchafbwyntiau'r mis ar

clonc360.cymru

TEULU A FFRINDIAU'N RHOI 'PARTI PRIODAS' ARBENNIG I ELIN AC ALED

Oherwydd yr argyfwng bu'n rhaid i Elin Lifestyle a'i darpar ŵr Aled Vaughan-Jones ohirio eu priodas tan fis Mai'r flwyddyn nesaf. Ond fe gawson nhw ddathliad gwahanol...

MASNACHU FEL BARBWR YN LLANBED AM 50 MLYNEDD

Mae siop farbwr a siop bysgota Alan wedi bod yn adnabyddus yn yr ardal ers degawdau ac mae'n un o fusnesau unigryw Llanbed. Dywed mai'r prif beth sydd wedi newid dros yr hanner can mlynedd yw'r amser sydd gan bobl i siarad. Mwy o'i hanes a'i straeon ar Clonc360...

Y DIWEDDARAF AM GYFYNGIADAU'R CORONAFEIRWS YNG NGHEREDIGION

Sut mae rheolau ein llywodraethau'n cael eu rhoi ar waith yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod yma?

Y diweddaraf am pa gyfleusterau sy'n agor a chau, y cyfyngiadau symud a chyfarwyddiadau y Cyngor Sir ar Clonc360.

"CYNNYDD YM MHOB ADRAN" YM MART DEFAID LLANYBYDDER

Gyda nifer aruthrol o gyplau defaid ac ŵyn wedi eu cyflwyno, daeth cefnogaeth dda gan brynwyr, gyda chynigion cystadleuol am yr anifeiliaid.

Cafwyd diwrnod mart llwyddiannus iawn yn Llanybydder dros ŵyl y banc. Mae holl fanylion y prisiau a'r prynwyr yn adroddiad Ffion Evans ar Clonc360.

Ffili aros tan y papur nesa'?
– clonc360.cymru

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mehefin	Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder	480683
Gorffennaf	Marian Morgan, Rhydyfelin, Drefach	481855
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Tîm Golygyddol	Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards a Lois Williams.	
Dylunydd y mis	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
Dosbarthwyr	Eifion ac Yvonne Davies, Afallon, Drefach	480590
Teipydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Alwen Edwards, Awel Teifi	421001
Cwmann	Sian Roberts-Jones, Croesor	423313
Cwmsychpant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Eirlys Owen, Cwmderi	481041
Llanwnnen	Elin Thomas, 1 Teras Sycamor	480239
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder	480683
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen, Llambed	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llanbed.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Y breintiedig

Rydw i'n grac. Ac rwy'n gwybod fod 'na gannoedd o rai eraill sy'n grac hefyd, os yw'r hyn wela i ar y cyfryngau cymdeithasol yn wir. Rydw i'n grac am ei bod hi'n amlwg nad yw rheol a chyfraith yn golygu'r un peth i bawb. Dy'n ni gyd ddim yn yr un cwch o bell ffordd. Efallai ein bod ni yn yr un storm, ond mae gan rai gychod mawr moethus sy'n ddidaro yn ymchwydd y don, eraill ohonon ni'n rhwyfo badau digon sigledig. Am beth ydw i'n sôn? Dominic Cummings, prif ymgynghorydd Boris Johnson. Wyddwn i ddim pwy oedd y cwrci tan rhai misoedd nôl, a go brin y byddwn i wedi nabod y boi petawn i'n ei basio ar y stryd yn Llambed. Ond mae'r sgandal diweddaraf amdano fe'n cael teithio i ble y mynno a'r holl esgusodion tila y mae e yn eu rhaffu, yn chwerthinllyd o drasig. Pwy yn ei iawn bwyll fydde'n gyrru – gyda'i wraig a'r plentyn yn y car – i weld a yw ei olwg yn ddigon da wedi dioddef salwch?! Y fath haerllugrwydd! Dyn breintiedig sy'n meddwl ei fod e'n fwy nac yw e. Dim cydwybod, dim cydymdeimlad, dim edifeirwch. Does dim rhyfedd ein bod ni'n grac!

Mae bywydau pobol yn y fantol. Dyna pam rydyn ni i gyd yn gorfod aros gartre gorau gallwn ni. Mae ymddygiad Dominic Cummings (ac efallai bod eraill tebyg iddo) yn sarhad ar y gweithwyr allweddol ac ar y gwasanaethau iechyd. Rydw i'n gwybod am bobol sydd wedi colli angladdau aelodau o'r teulu, am weinidogion sy'n ffaelu cysuro pobol mewn angen, am deuluoedd sy'n tynnu gwallt eu pennau i gadw'u hunain a'i gilydd yn gall. Odi, mae'r cyfnod yma yn niwsans i bawb, ond mae synnwyr cyffredin yn dweud bod aros yn gartrefol am rai misoedd yn well na pheryglu bywydau – a cholli bywydau. Brysied y dydd y byddwn ni yng Nghymru yn wlad annibynnol. Efallai nad yw ein Senedd yn berffaith, ond mae synnwyr cyffredin a gofal a chydwybod i'w deimlo yn yr arweiniad a gawn ar ein cyfer fel cenedl o Gaerdydd. Mor wahanol i'r hyn ddaw o Downing Street a'r tîm yn Lloegr. Cadwch yn ddiogel ac yn gall, gorau medrwch!

Cloncen

ARWYN VOBE ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu
ebost arwyn@avaccountancy.cymru

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan **Lywodraeth Cymru**

Rhifyn Gorffennaf
yn ymddangos
2 Gorffennaf
Erthyglau, Newyddion a Lluniau i law erbyn
22 Mehefin

Llanbedr Pont Steffan

Clapo ar Rodfa Glynhebog

Trigolion Rhodfa Glynhebog, Llanbed yn dangos eu gwerthfawrogiad o waith gweithwyr y Gwasnaeth Iechyd a gwaith y gweithwyr allweddol wrth gymeradwyo o flaen eu tai ar nos Iau.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Danfonwn ein cydymdeimlad tuag at Barrie a Sheila Jones, Llygad y Ffynnon ar golli tad, tad-cu a hen dad-cu sef Oriel Jones, MBE.

Cydymdeimlwn ag Alan a Sulwen Morgan, Llwynbedw, Rhodfa Glynhebog ar golli ei unig chwaer, Heulwen o Synod Inn.

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Mrs Peggy Evans, gynt o Lys Creuddyn, Llambed a Nantyffin, Heol Llanfair. Cydymdeimlwn â'r plant Huw, Richard a Susan a'r cysylltiadau teuluol oll yn eu colled enfawr.

Hefyd cofiwn am Ieuan James, Ael y Bryn, Heol Maestir ar golli ei frawd sef Alun James o Lanybydder ond gynt o Gwrtnewydd. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Cymorth Cristnogol

Fe benderfynodd Eglwysi Shiloh a Soar yn Llanbed gyfrannu £150 yr un i apêl Wythnos Cymorth Cristnogol. Rwy'n siŵr y bydd Eglwysi eraill tu fewn y dref a'r cyffiniau yn llawn mor hael wrth gefnogi achos mor deilwng. Oherwydd effaith Covid-19, mae'r angen eleni yn fwy nag erioed. Mae'n debyg y bydd y casgliadau dros y wlad i lawr yn sylweddol eleni oherwydd y cyfyngderau o fethu casglu o gwmpas y tai a'r methiant i gynnal gweithgareddau lleol. Mae modd danfon cyfraniadau ymlaen er hynny i ysg. De Cymru o Gymorth Cristnogol - Mr Tom Defis,75 Heol Dŵr,Caerfyrddin SA311PZ.

"Rho i mi nerth i wneud fy rhan
I gario baich fy mrawd
I weini'n dirion ar y gwan
A chynorthwyo'r tlawd"

Llongyfarchiadau

Carwn longyfarch Carol Thomas sy'n diwtor Cymraeg yn ardal Llambed am annog y dysgwyr disglair yn y fro i gystadlu yng nghystadlaethau Merched y Wawr. Eleni cafodd gryn lwyddiant ac mae'r canlynol wedi ennill gwobrau yn y cystadlaethau ysgrifenedig: Lefel Canolradd - 'Fy Nhiwtor' - Y wobr gyntaf - Shelagh Yeomans; Y drydedd wobr - Graham Parker; Hefyd yn y Lefel Sylfaen ' Fy Hoff Le' aeth yr Ail wobr i - Saronne Rubyan-Ling o Lambed.

Silian

Eisteddfod T

Llongyfarchiadau i Delyth Evans, Tangraig am ddod yn ail ym mhrif gystadleuaeth Ddrama Eisteddfod T yr Urdd eleni.

Roedd campwaith Delyth yn ffocysu ar ein problem digartrefedd yn ystod cyfnod y cloi mawr yn benodol. Fe wnaeth y Llywodraeth leihau'r niferoedd o drigolion digartref Caerdydd i niferoedd sengl mewn cyfnod o ddau ddiwrnod, a'r targed i wneud hyn cyn hynny oedd pum mlynedd! Felly, er bod y broblem dal yn bodoli wrth gwrs, fe ddangoswyd nid yn unig bod gwella'r broblem yn bosib, ond dangoswyd hefyd ei fod yn bosib mewn cyfnod byr iawn o amser. Mae'r fonolog felly wedi ei seilio ar gymeriad yn y sefyllfa yna, lle mae hi'n derbyn llety dros dro yn ystod y cyfnod hwn. Mae e'n dechrau â naws digon ysgafn wrth iddi hel atgofion am ei phlentyndod tra'n cael bath, ond yn gyflym yn troi'n fwy difrifol wrth iddi bendroni am beth oedd gwraidd gofid y Llywodraeth, a chwestiynu gwir bwriad ei hagenda.

Dywedodd Hanna Jarman y beirniad fod "y stori yn glir, yn gyfredol ac yn procio'r cydwybod. Roedd neges y monolog yn bwerus iawn, a'r delweddau o ddigartrefedd yn cael eu casglu fel plant coll yn effeithiol iawn."

Mae'n amser ymuno neu ail ymuno â Chlwb Clonc.
Dim ond £5 yr aelod, ond gallwch ymuno sawl gwaith er mwyn gwella ar y cyfle i ennill gwobrau ariannol misol.

Gan fod Papur Bro Clonc am ddim ar ein gwefan dros gyfnod Coronafeirws, gofynnwn i chi ymuno â Chlwb Clonc neu gynyddu'ch aelodaeth os hoffech ddangos eich gwerthfawrogiad o'r papur.

Yn anffodus, ni all ein gwirfoddolwyr alw gydag unigolion eleni er mwyn casglu arian aelodaeth, gofynnwn felly i chi ddanfon eich tâl aelodaeth ymlaen at drysorydd Clonc yn un o'r ffyrdd isod:

1. Llenwi'r ffurflen Archeb Banc (gyferbyn) a'i dychwelyd i'ch banc.

2. Talu drwy fancio ar lein. Ceir manylion Banc Clonc ar y ffurflen gyferbyn.

3. Neu ddanfon siec at drysorydd Clonc. Ceir y cyfeiriad gyferbyn.

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth.

CLONC

CLWB CLONC

Os na wnaethoch gytundeb archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chwi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn arbed llawer o waith i gasglu yr arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB.

Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â siec neu arian parod mae croeso i chwi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn parhad CLONC.

ENW: .....

CYFEIRIAD: .....

.....

CÔD POST: ..... RHIF FFÔN: .....

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i Clonc gyhoeddi'ch enw ac enw'ch pentref petaech yn ennill gwobr.

ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / *To* [eich banc chwi / *to your bank]* ..... Banc / *Bank*

Rhif didoli / *Sort Code:* .....- .....-.....

Cyfeiriad y Banc / *Bank Address*: .....

.....

Taler / Please pay Nat West, Llambed **53-61-42**

I gyfrif / for the credit of **CLWB CLONC** Rhif cyfrif: **03451526**

Y swm o / the sum of **£**

I ddechrau ar / commencing **1af o Orffennaf 2020** ***1st July 2020*** Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af *Thereafter annually on 1st July*

nes y derbyniwch rybydd pellach gennyf drwy lythyr / *until you receive further notice from me in writing.*

Enw'r cyfrif i'w ddebydu / *Name of account to be debited:* .....

Rhif y cyfrif banc / *Account no*: ..... Llofnod / *Signature*: .....

Cymeriad Diddorol - D Jacob Davies

Mary Eunice Williams

Roedd mam, sef Mary Eunice Williams wrth ei bodd yn ysgrifennu a threuliai oriau wrth fwrdd y gegin yn rhoi pensil ar bapur. Arferai gystadlu'n flynyddol yn Eisteddfod Pantyfedwen, Llambed ac enillodd y Fedal Ryddiaith droeon. Er ein bod wedi colli mam bellach, erys ei gwaith ar gof a chadw o hyd. Dyma ddetholiad felly o'i theyrnged hi i D. Jacob Davies – cymydog a ffrind annwyl i ni fel teulu. Ysgrifennwyd y deyrnged hon ym 1991.

Gwyneth Davies

Credaf mai lle diflas ac undonog fyddai'r byd yma pe bai pob bod dynol yr un fath- mewn ymddangosiad, iaith, gallu a hoffter at bethau megis bwyd, dillad a diddordebau. Ie, pob un fel y stamp a roddir ar lythyr - neb yn wahanol i'w gilydd. Wel, a bod yn onest, fe fyddai bywyd yn amhosibl. Ni fyddai neb yn adnabod ei gilydd, neb yn arbenigo mewn unrhyw alwedigaeth - pawb yn dilyn yr un ffordd o fyw. Felly, gellir ymfalchïo yn y ffaith bod bodau dynol yn gwahaniaethu mewn cynifer o ffyrdd, gan roi lle i'r llon a'r lleddf. Ceir gwahanol gymeriadau mewn gwahanol ardaloedd. Saif rhai allan fel cymeriadau diddorol, tra bod eraill yn hollol ddi-nod. Yn sicr, mae lle i bawb mewn cymdeithas. Rhydd pob un ryw gyfraniad tuag at hyrwyddo a chyfoethogi ei fro.

Os bu yna gymeriad diddorol erioed, D. Jacob Davies oedd hwnnw. Mae ambell berson yn gorfod ymdrechu i ymddangos ei fod yn ddiddorol am mai un digon anniddorol ydyw mewn gwirionedd. Nid felly Jacob. Roedd fel pe bai iaith ddifyrrus, goeth wedi meddiannu ei gyfansoddiad o'i gorun i'w sawdl. Byddai'n byrlymu dros ei wefusau pan fyddai'r amgylchiadau'n caniatáu. Ond gwyddai sut i ffrwyno'r ddawn honno pan fyddai'r sefyllfa'n gofyn am ymddygiad gwahanol.

Ganed ef ym Mhen-lôn, Tre-groes, Llandysul ym mis Medi, 1916. Oherwydd afiechyd, ni fedrodd fynd i'r Ysgol leol hyd nes yr oedd wedi gadael ei chwech oed; ac fe gafodd feic i wneud y daith yn haws iddo. Ym 1929, enillodd ysgoloriaeth i Ysgol Sir, Llandysul, lle bu' n ddisgybl hyd 1936. 'Rôl gweithio am flwyddyn ar fferm perthynas iddo a chynorthwyo'i dad fel saer maen, aeth i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin i baratoi ar gyfer gweinidogaethu gyda'r Undodiaid. Bu yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe hefyd yn dilyn rhan o'r cwrs. Yna, ym 1940, enillodd ysgoloriaeth i astudio am radd yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, gan weinidogaethu yng Nghapel Stryd Newydd y dref yn ogystal. Wedi ennill ei radd, bwriadai ddilyn cwrs anrhydedd, ond collodd ei iechyd, drwy orweithio. Yna, cafodd alwad o Highland Place, Aberdar a bu' n gweinidogaethu yno o 1945 hyd 1957, pan symudodd i'r Smotyn Du i ofalu am gapeli Alltyblaca, Capel y Bryn, Cwrtnewydd a Chapel Cwmsychbant, neu'r ABC fel y galwai hwynt. Bu yno hyd ei farwolaeth ym 1974.

Roedd Jacob yn bregethwr diddorol, yn syml a dealladwy. Nid oedd yn credu mewn defnyddio geiriau mawr, diwinyddol pan fyddai rhai llai yn gwneud y tro. Drwy hynny, medrai ddal sylw ei gynulleidfa a gyrru'r neges adref. Doedd neb yn cysgu tra byddai ef yn y pulpud. Byddai'n fywiog ei ymarweddiad, a gellid synhwyro ystyr y cuwch a'r wên ar ei wyneb a thrwy hynny fyfyrio'n haws ar gynnwys y bregeth. Cyfrinach y graen a geid ar ei bregeth oedd y ffaith ei fod wedi paratoi yn drwyadl. Mae'n syndod iddo fedru gwneud hynny gan fod cymaint o alwadau arno o bob cyfeiriad. Eithr, daliai ar bob cyfle i roi popeth yn barod erbyn y Sul ac unrhyw weithgaredd arall yn ymwneud â'r Capel. Gallaf dystio iddo dreulio oriau yn ei stydi bob wythnos. Roedd honno ar y llofft, ac yntau'n edrych allan drwy'r ffenestr ar ein cae ni. Ni fyddai byth yn tynnu'r llenni, hyd yn oed ar nosweithiau hir a thywyll y gaeaf. "Rwy'n ca'l llawer o syniade oddi wrth y da, y defed a'r ŵyn, a hyd yn o'd ambell iâr", meddai, "pan fydda' i'n paratoi erbyn y Sul, ne' yn 'neud rh'wbeth fel barddoni. Mae'n syndod faint o help ma' nhw'n rhoi i fi. P'id'wch â'u gwerthu nhw", medde fe, "fydd 'da fi ddim byd i helpu fi wedyn - dim ond coed a phorfa".

Cofiaf am Jacob yn rhoi cyngor i mi un tro a minnau'n paratoi ar gyfer llywyddu mewn Cymanfa Ganu. "P'id'wch a bod ofan sefyll o fla'n pobol", meddai, "a siarad â nhw. Fydd 'na ddim un angel - pobl gyffredin fel chi a fi fyddan nhw i gyd, a leicen i weld rhai ohonyn nhw'n treio 'neud rh'wbeth yn gyhoeddus". Yn wir, rhoddodd ei gyngor dipyn o hunanhyder i mi, a phob tro y byddaf yn ceisio gwneud rhywbeth o'r fath, daw ei eiriau calonogol i'm cof. Daeth Jacob yn enwog a phoblogaidd drwy'r wlad, ond aeth e ddim yn rhy fawr i'w 'sgidie. Na, 'dyn bach o'r wlad' oedd e' hyd y diwedd. Er iddo ddringo'n uchel ym myd addysg a chyfrannu'n helaeth at lenyddiaeth a barddoniaeth Cymraeg, ennill anrhydeddau lu, cymryd rhan mewn rhaglenni radio ac ymddangos ar y teledu, yr un person oedd e' o hyd. "Ma'n rhaid i chi gadw'ch pen", medde fe. "Dyw balchder dda i ddim - dim ond lleihau ffrindie dyn". Roedd yn ffigur enwog ar lwyfan Eisteddfodau Cenedlaethol, fel arweinydd a beirniad. Pa beth bynnag oedd ei orchwyl, gellid bod yn sicr y byddai'n feistr ar ei waith ac yn difyrru a diwallu ei wrandawyr. Dyn byr oedd e gyda choesau byrion. Er hynny, medrai gerdded yn eitha' cyflym. Tua dechrau'r saithdegau, gellid synhwyro ei fod yn gofidio am ei bwysau. Cerddai i gapel Alltyblaca, yn lle mynd yn y car fel arfer. Taith fer ydyw o'r Mans, ond gwyddai y byddai'n lles i'w iechyd ei cherdded. Roedd ganddo feic hefyd. Byddai'n ei ddefnyddio'n frwdfrydig iawn ambell dro, ond, nôl i'r car yr âi ymhen rhai dyddiau, gan anghofio popeth am rywbeth fel pwysau.

Medrai ymateb i bob sefyllfa yn ddigrif a ffraeth. Cafodd y gorchwyl o hyfforddi ei briod i yrru car. Ni wn faint o amynedd oedd ganddo, ond, wrth gwrs, arferent fynd i leoedd tawel, mynyddig i ymarfer. Un prynhawn, fe stopiodd y car yn sydyn, a hynny ar ochr y ffordd. Cyn iddynt symud o'r fan, fe'u goddiweddwyd gan gar arall a sylwodd Jacob fod arwyddlun ar ffenestr ôl y car hwnnw, gyda'r geiriau "I've got a tiger in my tank" arno. Erbyn hyn, roedd Mrs. Davies yn ceisio ailgychwyn, ond roedd y car yn neidio a thagu, a hynny sawl gwaith o'r bron. Meddai Jacob yn sydyn reit,- " Teigr o'dd yn nhanc y car 'na a'th h'ib'o - Cangarŵ sy'n tanc hwn ta beth." Ie, person llawn hwyl oedd Jacob. Roedd difyrrwch a hiwmor yn rhan annatod o'i bersonoliaeth. Mae'r ddawn anhygoel a oedd ganddo i ddisgrifio pobl a sefyllfaoedd yn peri syndod ac edmygedd i'r rhai sy'n darllen ei gynhyrchion. Rhaid ei fod yn berson a ddaliai sylw manwl ar bopeth o'i gwmpas a'i fod hefyd yn meddu ar ddawn arbennig i ddefnyddio'i ddychymyg yn gelfydd a chryno. Gwelir ei ddisgrifiad o'r "DynPerffaith" yn 'Y Ddawn Ddigri', 1970. Dyma ddetholiad ohono: 'Dyna chi ddyn. Dyn Perffeth.... mae siŵr o fod i gal yn rhywle. Perffeth iach, perffeth sobor, perffeth synhwyrol, perffeth hapus; perffeth tu fiwn a pherffeth tu fas a dim nam na sbecyn arno fe mewn unrhyw siort o ffordd. Dim tolce, dim plete, dim blewyn mas o le o dop i ben e hyd i fyse drad e. I lais e'n iawn, dim gwich fach yn i sgidie fe, dim dant wedi pwdru, dim un o'i wine trad e' n tyddu miwn na mas . . .Popeth yn i le fel dyle fe fod. Dyn Perffeth . . . A nid dim ond i gorff e'n berffeth ond i du fiwn e hefyd¬ - y wyrcs i gyd. . . Mae e, chwel, yn gwbod beth i neud ac mae e' n gwbod fod e'n

Cymeriad Diddorol - D Jacob Davies

Mary Eunice Williams



D Jacob Davies

Mary Eunice Williams

gwbod beth i neud ac am fod e 'n gwbod fod e'n gwbod mae e'n gneud nhw heb ffwdan . . . . Mae e'n gweud y pethe dyle fe weud pan yw hi'n werth'u gweud nhw. ' Wedi nodi popeth ynglŷn â'r dyn perffaith, mae'r digrifwr yn gorffen gyda'r geiriau: 'Wyddech chi, mae e' n codi'n dwymyn arna i withe wrth feddwl amdano fe. Ganol nos, rwy 'n dihuno a meddwl mod i'n i weld e o flan yn llyged. Ond leicwn i gal un pip arno fe. Jest un pip fach i weld shwt un yw e'n iawn gan mod i wedi clywed cymint amdano fe. Rwy' n gallu dychmygu shwt un yw e, ond ta shwt un yw e, ma un peth yn siŵr, fydd e ddim cystel bachan â gŵr cynta Mari 'co. O'dd hwnnw, sdim dowt, yn Ddyn Perffeth perffeth'. Mae'n rhaid bod Jacob wedi pwyso a mesur y dyn perffaith yma i'r eithafion, ac wedi ei gymharu â llawer o'i gydnabod, gan ddod i'r penderfyniad fod hwn ymhell o flaen pawb, ac eithrio 'gŵr cynta' Mari'.

Ym 1973, cyhoeddwyd 'Yr Hen Foi' o waith Jacob. Ynddo, cawn ddameg "Y Mab Afradlon" wedi ei hysgrifennu mewn tafodiaith, - ie, yr iaith a ddefnyddiwn bob dydd. Ei fwriad, wrth wneud hynny, oedd ysgafnhau'r fersiwn Feiblaidd ohoni er mwyn ennyn diddordeb yr ieuenctid. Pan ddarlledwyd "Gwasanaeth yr Ifanc" o Neuadd y Bryn, Cwrtnewydd ar Ddydd Sul, Hydref 22ain, 1972, darllenodd Jacob ran o'r fersiwn fodern honno. Mae'r teitl yn ddigon i dynnu sylw'r gwrandawyr, - "Yr Hen Foi a'r Ddou Grwt." Pwy ond Jacob, a'i weledigaeth, a feddyliai am newid teitl gwreiddiol y ddameg a rhoi datganiad y mab ieuengaf, ar y dechrau, mewn modd mor ddealladwy i bobl ifainc ein hoes: 'Rwy'n ffed-up yn y twll hyn, os ma ddim leiff o gwbl. Rwy'i am yr arian sy'n troi i fi er mwyn gallu mynd bant i rywle digon pell.' a dyma'r canlyniadau: 'A fe roiodd yr Hen Foi geiniog go lew yn i boced e, ac wedi paco'i fag, bant ag e yn i gyfer.' Mae'r ddameg yn llawn ymadroddion cyfarwydd, megis: 'hela arian fel dŵr a chal hei leiff; fe a'th yn fain arno; 'rodd e ar starfo ishe bwyd; chele fe ddim bripsyn gyda neb. . . 'Rwy'n mynd nôl at yr hen foi, ac fe weda i wrth fe. . . mae wedi mynd yn fflwcs arna i. ... Dwy'i ddim yn ffit i gal y ngalw yn fab i chi. . . rwy'n fodlon gweithio fel labrwr. . A phan odd e'n nesu at i gartre fe welodd yr Hen Foi e o bell ac fe redodd ffwl-pelt i gwrdd ag e. . . Whilwch ddillad glân. . .a thynnwch y slaps sgidie 'na bant o'i drad e. . . Gwnewch swper. . Mae e'n fyw a finne wedi meddwl fod e wedi marw.'

Creu llawenydd a gobaith ym mywyd ieuenctid y fro oedd nod y gweinidog hwn. I'r perwyl hwnnw hefyd y cyfansoddodd "Emynau'r Fflam" i'w canu ar donau ysgafn, poblogaidd, ynghyd â darlleniadau a gweddïau'n ymwneud â bywyd bob dydd. Yn yr oedfa yng Nghapel y Bryn aeth Jacob mor bell â gofyn y cwestiwn hwn i'w gynulleidfa, "Ydych chi' n synnu bod pobol yn gadael crefydd, pan fo crefydd wedi gadael ei synnwyr cyffredin?" Nid oedd yn hiraethu, chwaith, ar ôl y ffaith bod plant yr oes o'r blaen yn cael eu gorfodi i fynd i'r cwrdd a'r Ysgol Sul. Roedd yn well ganddo'r 'volunteers' a ddaethai o'u bodd i'r oedfaon. Diddorol oedd gwrando arno yn dweud mai angen mawr yr Eglwys oedd newid "y gwasanaeth set a'r bregeth draddodiadol.' Cyfeiriodd at y mawrion a fu'n cyfrannu cymaint tuag at y cyfrwng o addoli, gan ofyn, "beth y'n ni yn ei gyfrannu heddiw?" Ond nid person i ddigalonni oedd Jacob. Cyfeiriodd at y meddyg, Christian Barnaard a'i allu i roi calon newydd i ddyn a chredai ei bod yn bosibl gwneud yr un peth â'r Eglwys. Ennill calonnau tyner y bobl ifanc oedd ei uchelgais - calonnau a fyddai'n barod i fentro yn lle aros yn yr hen rigolau. Roedd yn ffyddiog, wedi'r oedfa honno yng nghapel y Bryn y bore hwnnw, y byddai hynny'n bosibl, ac edrychai ymlaen at weld hapusrwydd a llawenydd o fewn yr Eglwys. Ni chafodd Jacob fyw i weld ei obeithion yn cael eu gwireddu. Roedd am wneud crefydd yn fodd i bobl fod yn llawen a gorfoleddus a chredai'n bendant fod "dyddiau llawenydd gerllaw".

Medrai addasu ei hun ar gyfer pob achlysur. Cofir am ei naturioldeb pan oedd yn cadeirio'r rhaglenni 'Penigamp' ar y teledu. Gwnâi i bawb deimlo'n gartrefol ac ni ellid canfod bod unrhyw straen arno i gael y gynulleidfa i'r cywair priodol a sicrhau cydweithrediad rhwng y llawr a'r llwyfan. Pwy na chlywodd y stori honno a draethodd mor ddeheuig, pan soniodd am y gaeaf enbyd o oer a gafwyd yn Rhandirmwyn ym 1844? Mae'n debyg iddi rewi mor galed nes i ddafad a oedd ar hanner neidio dros ben clawdd, rewi'n gorn yn yr awyr ac aros yno. A dyma ryw 'grwt clyfar' yn gofyn i'r ffarmwr, - "Beth am gravity te?""Machan bach i", mynte'r ffarmwr, "yn Rhandirmwyn yn 1844, roedd gravity hefyd wedi rhewi'n gorn".Pa raglen neu weithgaredd bynnag y byddai Jacob yn rhannol gyfrifol amdani, gellid disgwyl iddi fod yn adloniadol. Un tro, fe soniodd am deulu a oedd yn ffermio yn sir Aberteifi flynyddoedd mawr yn ôl, ymhell cyn dyfodiad

Cymeriad Diddorol

y peiriannau modern sy'n lleihau a phrysuro gwaith y fferm. Adeg y cynhaeaf gwair ydoedd, a'r bladur a'r rhaca yn feistri caled a'r ffermwr yn ceisio dyfalu a fyddai'n ddoeth, ai peidio, i ofyn i'r cymdogion ddod yno i roi help llaw. "Wel," mynte'r wraig, "wi'n gwbod cyment â hyn - Lot neuth lot, ond lot fyt lot hefyd". Chwarae teg iddi, - byddai'n golygu tipyn o waith ychwanegol iddi hi i fwydo'r criw i gyd.

Nid oedd angen bod yng nghwmni Jacob yn hir cyn ei glywed yn adrodd storïau a dywediadau bachog. Un diwrnod, a minnau'n paratoi cwpanaid o de iddo, fe dd'wedodd rywbeth a barodd i mi feddwl, tybed a oedd hynny'n bosibl. Sôn yr oedd am y cwpanaid mwya' rhyfedd o de a gafodd erioed, a hynny yn ystod haf poeth mewn pentref cyfagos. "Mor gynted ag y cymeres i dracht", meddai, "fe deimles i fod hen flas od ar y te, fel se'r dŵr wedi llosgi." Drwy drugaredd, fe yfodd bob diferyn o'r te a roddais iddo'r diwrnod hwnnw er mawr ryddhad i mi. Dyma enghreifftiau o rai o'i ddywediadau bachog mewn tafodiaith: 'Ro'en nhw'n sownd howld-bi-dag; Yn dapar cach ac yn whys drabŵd; Mynd shwc-shac drw'r pwdelacs i gyd; Mae e'n galler i gweud hi nawr nes bod i dei e'n crini; Fe ddiwelodd y lori miwn iddo fe lwr-i-chwt, garlibwns.'

Rhwng prinder amser a diffyg diddordeb, ni chymerodd Jacob at y gorchwyl o ddodi gardd y Mans. Felly, ni ellid disgwyl dim byd ond chwyn i dyfu yno. "Ma' crop da o hwnnw 'da ni",meddai. "Do's dim dileit 'da fi i 'neud pethe fel 'na, a ma' tipyn o whant arna i ga'l rhywun i simento hi, o un pen i'r llall. Bydd hi'n edrych dipyn mwy teidi wedyn, a bydd dim c'wilydd arna' i pan ddaw rhyw arddwr proffesiynol hib'o." Er iddo sôn am ei gynllun yn gyhoeddus un tro, ar radio neu deledu, ni ddaeth hynny i ben.

Ym 1973, dyrchafwyd ef yn Llywydd y Gymdeithas Undodaidd a mwynhaodd y profiad o deithio'n helaeth yn rhinwedd ei swydd, ond ni chafodd fyw i weld ei dymor yn dod i ben. Roedd ganddo weledigaeth eang a syniad da o'r cyfeiriad y dylai'r eglwys ymlwybro yn y dyfodol. Breuddwydiai am well yfory, ond ysywaeth, bu farw cyn gweld hynny hefyd yn dod yn ffaith. Os taw dyn bychan o gorffolaeth oedd Jacob, roedd yn ŵr mawr yn y pulpud, ar lwyfan, ar radio a theledu ac fel arweinydd mewn cymdeithas. Ie, dyn mawr mewn corff bychan. Collodd Cymru ddigrifwr o fri. Gellid dweud ei fod yn gymeriad emosiynol hefyd. Doedd y dagrau ddim ymhell, yn enwedig wedi iddo orfod wynebu profedigaeth lem ym 1965. Ond, cafodd nerth i ddal ati hyd ei farwolaeth ddisyfyd ar Chwefror 11eg, 1974, ac yntau ond hanner cant a saith mlwydd oed. Taenwyd cwmwl o dristwch dros ardal eang a theimlwyd y golled yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Myrddin, tua chwe mis yn ddiweddarach. Lluniwyd englynion coffa iddo yn 'Ymryson y Beirdd' y flwyddyn honno. Dyma'r ddau englyn buddugol sy'n cyfleu'r tristwch o golli gŵr mor amryddawn:

'Hanner haf yn wir yw hwn- heb Jacob
Â'i jocan diwenwyn;
A mwy, y mae hon, mi wn,
Y brifwyl dristaf brofwn.
Beirdd Gwynedd a Chlwyd'

'Llwyfan ei lân ddiddanwch - a dlodwyd
A'i wlad sy mewn tristwch;
Hedd i'r llanc, ni chuddia'r llwch
Ei grefydd na'i ddigrifwch.
Beirdd Powys, Gwent a Morgannwg'

Llanybydder

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Ogwen, Janet, Keith a'u teuluoedd ar golli gŵr, tad, tad-yng-nghyfraith, tad-cu a hen dad-cu annwyl yn ddiweddar, sef Aerwyn Evans, 2 Heol y Gaer, Llanybydder yn ogystal ag Elonwy a Dulcie ar golli brawd.

Diolch

Dymuna Ogwen a'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt gan deulu, ffrindiau a chymdogion yn ddiweddar wrth iddynt golli gŵr, tad, tad-yng-nghyfraith, tad-cu a hen-dadcu annwyl iawn, sef Aerwyn Evans, 2 Heol-y-Gaer, Llanybydder

Codi arian

Yn ystod mis Mai llwyddodd John Conrad Seaman wneud deg lap o faes parcio Llanybydder yn ei gadair olwyn er mwyn codi arian tuag at ddau ysbyty. Dros gyfnod o ddeg diwrnod, gwnaeth Conrad 10 lap bob dydd, sef cyfanswm o 100 lap a chodi arian tuag at adrannau'r ysbyty a fu o gymorth iddo ef dros y blynyddoedd. Bu Conrad mewn damwain gas ddeng mlynedd yn ôl a bu'n rhaid iddo golli rhan o'i goes mewn llawdriniaeth y llynedd yn sgil y ddamwain.

Erbyn hyn, mae e wedi codi dros £600 a chaiff yr arian ei rannu rhwng Ward 6 Ysbyty Tywysog Phillip Llanelli ac ALAS Ysbyty Treforys. Dyma esboniad Conrad, "Deng mlynedd yn ôl cefais ddamwain o 7fed llawr maes parcio aml-lawr lle cefais anafiadau difrifol. Roeddwn nôl a mlaen i'r ysbyty gyda sepsis, osteomylitis a beryglodd fy mywyd a chollais ran o fy nghoes oherwydd cymhlethdodau. Rwy'n gwneud hyn i gydnabod y gefnogaeth a'r anogaeth a dderbyniais. Bydd 50% yn mynd i'r GIG a 50% ar gyfer offer chwaraeon i bobl anabl."

Gallwch gyfrannu tuag at ymdrechion Conrad drwy dudalen justgiving. Mae Conrad hefyd yn gwerthu cerrig camu wedi eu haddurno o ardd flaen ei gartref yn rhif 2 Teras yr Orsaf, Llanybydder. Mae nifer cyfyngedig ar ôl am £3.50 yr un neu dair am £10. Cofiwch ei gefnogi.

Cwmsychpant

90 oed

Yn ystod mis Mai dathlodd Betty Jones, Delfan ei phen-blwydd yn 90 oed. Danfonwn ein cofion ati.

Gorsgoch

Dathlu

Pen-blwydd hapus i Gwilym Evans, Gwynfryn a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar y 13eg o Fehefin. Oddi wrth y teulu i gyd.

Pawb yn Elwa gan Rob Evans

Wel dyn ni wedi bod dan glo rŵan am faint? Wyth wythnos? Dw i'n meddwl mod i wedi addasu'n dda iawn. I ddweud y gwir, dim ond un peth sydd yn fy mhoeni i, efallai dim ond un peth ond mae'r boen yn cynyddu bob diwrnod - fy ngwallt! Fel rheol dw i'n teimlo'n ffodus mod gen i lond pen da o wallt ac os mae o'n cael ei dorri yn gyson dydw i ddim yn sylweddoli ei fod yn tyfu mor gyflym. Erbyn hyn efo bob siop trin gwallt ar gau dw i'n gwybod yn iawn pa mor gyflym, ac mae fy ngwallt allan o reolaeth yn llwyr.

Yn yr ystafell ymolchi'r bore 'ma ces i sioc, roedd rhyw ddyn gwyllt yn syllu arnaf trwy'r drych, roedd ei ben wedi ei orchuddio gan gorongylch o wlân cotwm. Mae'n dechrau teimlo'n anghyfforddus, mae'n fy nghosi o gwmpas fy ngwar a dydy fy het ddim yn ffitio bellach.

Maen nhw'n dweud mai'r siopau trin gwallt fydd yr olaf i ail agor a chlywais rywun yn sôn am rywbryd ym mis Gorffennaf. Mi fydda i allan o'n nghof ymhell cyn hynny!

Y bore 'ma roeddwn i'n eistedd allan yn yr ardd tua hanner awr wedi pump, yr haul heb ddechrau cynhesu'r diwrnod ond yn taflu golau hardd. Roedd yr adar yn brysur ganu a finnau wedi lapio'n gynnes. Mwynhau'r achlysur. Dw i'n eistedd tu allan peth cyntaf yn y bore yn aml iawn a'r adar yn gyfarwydd iawn â fi erbyn hyn. Y bore 'ma roedd dau aderyn, yn amlwg yn ddwfn mewn cariad ond yn ddigartref. Roedden nhw'n syllu ar fy mhen ac yn dangos tipyn o ddiddordeb. "Sbïa ar y pen yna," dywedodd yr un "bydden ni ddim llawer o amser yn adeiladu nyth yn fanna!" "Ti'n iawn" meddai'r llall "mae digon o ddefnydd yna i greu nyth yn ddigon mawr i chwech o blant!"

Aethon nhw ymlaen i gynllunio eu dyfodol a finnau yn trio fy ngorau i beidio dangos diddordeb o gwbl ond roeddwn i'n cydymdeimlo efo'u sefyllfa nhw. Nid oeddwn yn hapus iddyn nhw nythu ar fy mhen ond roedd yna un ffordd y gallwn eu helpu. Byddai hynny'n fy helpu innau ar yr un pryd.

Es i i'r ystafell ymolchi, cydio yn y siswrn a thorri'r cwbl lot i ffwrdd, rhoi'r holl wallt mewn hen focs 'sgidiau a'i dycio fo yng nghanol un o'r coed afalau. Ymhen awr roedden nhw wedi symud i mewn ac yn cael parti.

A finnau? Wel dw i'n teimlo'n llawer mwy cyfforddus, bydd rhaid gwisgo het wrth gwrs ond erbyn mis Gorffennaf mi fyddaf yn barod i gael toriad go iawn.

Peidiwch ag edrych ar y dyddiad, nid Ebrill y cyntaf yw hi - mae'n stori wir ac os nad ydych yn fy nghredu i, edrychwch ar Twitter achos ar ôl y parti mawr roedd y ddau aderyn lwcus a'r ffrindiau i gyd yn brysur ar Twitter ac yn twîtio'r stori i'r holl fyd.

Cadwch yn saff!

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Gemau Plant

Mae chwarae plant wedi newid a datblygu yn y dyddiau digidol hyn – mae'r rhyngrwyd yn eu galluogi i chwarae gemau gyda'u ffrindiau heb adael y tŷ, neu hyd yn oed godi o'r soffa. Ond mae 'na le o hyd i'r gemau traddodiadol, p'un ai yn yr ardd, yn y parc, neu ar iard yr ysgol – does dim yn well na chlywed chwerthin hapus plant yn cael hwyl yng nghwmni ei gilydd yn yr awyr iach.

Dyma flas ar rai o'r gemau traddodiadol poblogaidd sydd wedi'u cofnodi yn y Geiriadur.

Un o'r hen ffefrynnau yw chwarae cwato neu guddio. Beth yw hwnnw, medd rhai ohonoch? Efallai eich bod yn ei adnabod yn well wrth un o'r enwau canlynol: micymgudd, chwarae whic whiw, cwat a chwiw, cŵn cadno, chwiw mig, sbei, chwarae mig, licaloi, neu, yn Saesneg, 'hide-and-seek'.

A fu rhai ohonoch erioed yn chwarae London? Neu efallai mai cicston, chwarae ecsi, poitsh neu sgotsh oedd eich enw am 'hopscotch'.

Mae cofnod yn y Geiriadur am 'chware cat', sef gêm o daro neu fatio darn o bren (y 'gath') i bellter am bwyntiau, yn dyddio o'r 16g. Mae'r gêm yn cael ei hadnabod hefyd fel catio, chware'r gath, chwarae'r gath ddwy gynffon, chwarae pren a chati, a pegi. 'Tip-cat' yw'r enw Saesneg amdani, a thybed a oes rhai ohonoch erioed wedi ei chwarae?

Beth am 'leap-frog'? Yn ôl y Geiriadur, adnabyddir y gêm fel chwarae donci mul, chwarae ffwdít, llam llyffant, naid y ffroga, chwarae moch duon, neidio caseg felen, neu neidio mulod. Beth oedd eich enw chi am y gêm?

Mae'n ddiddorol darganfod yn y Geiriadur bod chwarae pêl-droed yn cael ei adnabod yn y 17-18g. fel chwarae pêl ddu. Nid chwarae ffwtbol fel yr ydym yn ei adnabod heddiw wrth gwrs, ond rhyw ffurf hanesyddol o'r gêm boblogaidd a oedd weithiau'n eitha peryglus, yn ôl yr hanes! Cofiwch, mae 'na nifer fawr o bethau diddorol eraill i'w darganfod drwy bori yn y Geiriadur. Ewch i: http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html

Hoffem glywed eich enwau lleol chi am y gemau yr ydych yn cofio eu chwarae yn eich plentyndod, i gael ychwanegu at ein casgliad. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu at:

Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH

Cynhelir

Cyfarfod Blynyddol Papur Bro Clonc

ar wefan neu ap ZOOM

Nos Fawrth 16eg Mehefin am 7 o'r gloch.

Cysylltwch â chadeirydd Clonc
cadeirydd@clonc.co.uk
i dderbyn rhif adnabod cyfarfod
a chyfrinair er mwyn ymuno.

Dyma gyfle i fynegi barn am eich papur bro, cynnig syniadau newydd a gwirfoddoli.

Profiad Gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd

Helo fy enw i yw **Lois Thomas**. Rwy'n byw yn Llanllwni ac rwy'n 22 mlwydd oed. Gobeithio eich bod chi i gyd yn cadw'n saff yn ystod y pandemig difrifol yma.

O ddydd i ddydd rwy'n nyrs gofrestredig yn Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin. Rwyf wedi bod yn nyrsio oedolion ers 8 mis bellach ac yn mwynhau fy swydd yn fawr iawn.

Rydyn ni, sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth gofal iechyd, ar hyn y bryd yn wynebu sialens fawr i geisio rheoli a gofalu am y cleifion sydd yn dioddef o'r feirws yma neu o unrhyw afiechyd arall.

Rydw i'n gweithio ar ward Teifi yn ystod y dydd. Mae'n cynnwys 12 o welyau i gleifion sydd yn dangos symptomau o COVID-19. Rydw i ran amlaf yn gweithio diwrnodau hir yn ystod yr wythnos - rhwng 3 i 5 diwrnod.

Yn ystod fy shifft, rydw i'n gofalu am 4 claf sydd â gwahanol afiechyd a salwch sydd yn gwneud fy swydd yn un ddiddorol iawn. Mae pob diwrnod yn brysur iawn ac mae'n cynnwys cymryd pwysau gwaed, tymheredd, lefelau O2 a churiad calon cleifion bob pedair awr, rhoi meddyginiaeth tair gwaith y dydd, a llawer mwy o gyfrifoldebau.

Mae'r cyfnod hwn yn anodd iawn i bawb ond y neges wrtha i a phawb sydd yn gweithio i'r gwasanaeth iechyd yw - arhoswch gartref a byddwch yn saff. Daw eto haul ar fryn.

Dyma yw fy stori i **Dafydd Williams** sydd wedi bod yn gweithio i'r gwasanaeth ambiwlans yn Llambed ers 1985.

Mae pethe wedi newid yn aruthrol ers i'r argyfwng Covid19 yma ddechre. Y peth cynta rydyn ni'n wneud nawr ar ddechre y shifft yw edrych a oes unrhyw beth wedi newid ers y shifft ddiwetha, achos mae pethe yn newid mor gyflym er enghraifft cael rhifau ffôn newydd i gysylltu a llinellau cyswllt gydag ysbytai gwahanol neu broses newydd o fynd â chleifion i mewn i'r ysbytai.

Mae pob galwad nawr yn dueddol o gymryd mwy o amser achos rydym yn gorfod gwisgo'n gwisg amddiffyn bersonol (PPE) gyda phob claf. Hefyd, rydym yn dueddol i gysylltu â meddygon teulu yn amlach nawr er mwyn ceisio osgoi gyrru claf i'r ysbyty rhag ofn iddo gael ei heintio gyda'r feirws.

Un fantais ar hyn o bryd yw'r ffaith bod llai o bobl yn mynd i'r ysbyty oherwydd eu bod yn gofidio am y feirws. Ers dwy neu dair blynedd nawr mae'r ysbytai wedi bod mor llawn fel ein bod wedi gorfod aros tu allan i'r ysbytai gyda chleifion yn disgwyl am wely gwag. Mae'r sefyllfa yma wedi gwella yn llwyr erbyn hyn.

Wedi trosglwyddo claf i'r ysbyty, rydym nawr yn gorfod glanhau'r ambiwlans yn drylwyr cyn mynd at y claf nesa, ac yn ogystal, os oes unrhyw amheuaeth fod Covid ar y claf mae gofyn i ni fynd i'r orsaf ambiwlans agosaf i ddiheintio'r ambiwlans. Ar ddiwedd shifft nawr rydym yn dueddol o newid allan o'r iwnifform a chael cawod cyn mynd adref.

Un o'r pethau gwaethaf am y Cofid yma yw nad oes neb yn gwybod beth sydd yn mynd i ddigwydd nesa. Ydy pethe'n mynd i waethygu cyn dod yn well? Ydy'r Cofid yn mynd i ddychwelyd eto yn hwyrach yn y flwyddyn? A ydy brechiad yn mynd i wella'r haint? Mae gweithio ar yr ambiwlans yn anodd iawn ar hyn o bryd.

Anwen Butten - nyrs arbenigol ac yn gofalu ar ôl cleifion sydd wedi cael diagnosis o gancr y pen ar gwddwg yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Ers y Covid 19, mae'r gwaith rwyf yn ei wneud wedi newid yn fawr. Rwyf wedi gorfod rhoi llawer o ganllawiau gyda'i gilydd i drio gwneud yn siŵr fy mod i a fy nghyd weithwyr a'r cleifion yn cadw'n saff.

Fel arfer roeddwn yn mynd o amgylch Hywel Dda yn gwneud clinics gwahanol. Ro'n i'n mynd i Ysbyty Llwynhelyg, Tywysog Phillip, Bronglais a Glangwili. Ond ers rhai wythnosau bellach rydym yn ffonio pobol a hefyd yn gwneud galwadau fideo fel ein bod ni'n gallu gweld cleifion wyneb yn wyneb ar sgrin yn hytrach na dod â nhw i mewn i'r ysbyty. Trwy ddefnyddio'r we a'r ffôn, rwyf yn gallu eu cynorthwyo wrth iddynt ddelio â thriniaethau, fel cemotherapi a radiotherapi.

Rydym yn trio lleihau apwyntiadau a chadw unigolion adre ar yr amser ofnus hwn, os yn bosib. O ddydd i ddydd, rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn dilyn y rhagofalon a gwisgo'r offer amddiffyn personol. Ar ddiwedd y dydd, yr un yw'r nod, sef edrych ar ôl cleifion a gwneud y gorau drostynt er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Rwy'n cynorthwyo cleifion a'u teuluoedd mewn amseroedd anodd. Pan fyddant yn cael diagnosis o gancr er enghraifft, rwy'n gobeithio bod y cymorth rwyf yn ei roi yn cael effaith gadarnhaol arnynt.

Mae'n anodd gwybod am faint o amser bydd y sefyllfa yma'n parhau ond rwyf yn sicr y bydd fy ngwaith yn wahanol am sbel!

Mae'n ganol mis Mawrth, ac yn amlwg erbyn hyn bod bygythiad Coronafeirws wedi cyrraedd Cymru ers rhyw bythefnos a'r rhifau nawr yn cynyddu bob dydd. Fel arfer rwyf i **Meinir Jones**, yn cael gwyliau ym Mis Mawrth, er mwyn helpu ar fferm y teulu. Ond eleni cafwyd galwad frys gyda'r gwaith gan ddweud ei bod hi'n hanfodol fy mod yn cael hyfforddiant pellach yn yr Uned Gofal Dwys (UGD). Nid wyf wedi gweithio yn yr UGD ers rhyw 4 blynedd, ond roedd y dystiolaeth o'r Eidal yn pwysleisio bod yr argyfwng yn rhoi pwysau ychwanegol ar yr UGD, ac yn golygu o ganlyniad bod eisiau mwy o nyrsys a doctoriaid ar gyfer y maes hwn. Felly, cefais lai o wyliau er mwyn mynd i'r hyfforddiant a dechrau paratoi ar gyfer yr argyfwng. Ond diolch byth bod y colegau a'r ysgolion wedi cau, achos roedd hyn yn golygu bod y ddau fab yn medru helpu ar y fferm a minnau felly yn gallu mynd i'r gwaith.

Yn ystod y mis diwethaf, nid wyf wedi gorfod mynd nôl i'r UGD. Dyn ni ddim wedi gweld yr un niferoedd o bobl sydd eisiau gwelyau UGD o'i gymharu â De Cymru. Ond mae fy swydd fel Uwch Nyrs wedi bod yn gyfnod o ofid a llawn her, wrth i bolisïau newid o ddydd i ddydd. Beth yw'r gofid dych chi'n gofyn? Wel yn sicr dw i'n gofidio fy mod yn cario'r feirws gartref i'r teulu. Yn ddyddiol rwy'n edrych ar ôl cleifion gyda'r feirws. O ganlyniad, rwy'n golchi fy nwylo nes bod fy nwylo yn goch ac yn sych, cael cawod yn syth ar ôl dod adref o'r gwaith a golchi fy nillad ar radd 60 ac ar wahân i ddillad y teulu. Er fy mod yn ofalus, ni allaf fod gant y cant yn hyderus fy mod yn cadw'r teulu'n ddiogel.

Ond mae fy ngofid i wedi bod yn llawer llai na'r gofid mae'r cleifion wedi mynd trwyddo - y rhai sydd wedi gorfod dod i'r ysbyty oherwydd salwch ac angen llawdriniaeth frys angenrheidiol arnynt. Does neb am ddod i'r ysbyty ar hyn o bryd, sydd yn golygu bod rhai wedi gadael eu salwch i fynd llawer yn waeth ac o ganlyniad yn hala fwy o amser i wella. Mae hyn yn golygu sefyll mewn yn yr ysbyty yn hirach. Mae pawb yn gwybod erbyn hyn bod symptomau'r Coronafeirws yn cynnwys peswch parhaus newydd a thymheredd uchel. Ond tybed a wyddoch fod gan rai pobl, sydd wedi cael y Coronafeirws, dymheredd uchel a bola tost? Mae rhai pobl ym Mhrydain wedi

cael 'appendicitis' hyd yn oed. Felly mae pawb sydd â thymheredd uchel yn cael eu hynysu o bob claf arall a chael swab asesiad am Coronafeirws.

Mae'r broses ddiogelwch wedi achosi sioc, straen a gofid ychwanegol i ran fwyaf o'r cleifion. Mae'r cleifion yn gweld y gweithwyr i gyd yn yr ysbyty yn gwisgo mwgwd, menig a ffedog blastig a dyw hyn ddim yn helpu'r sefyllfa ac o ganlyniad yn achosi pryder. Mae'r broses o gyfathrebu nawr yn straen i'r staff a'r cleifion. Faint ohonon ni sy'n cyfathrebu fel arfer trwy edrych ar wefusau'n gilydd yn symud ac edrych ar ein 'facial expression'? Wel nawr rydyn ni'n cyfathrebu trwy ein llygaid a chadw pellter gymaint â phosib.

O ddydd i ddydd mae fy ngwaith yn wahanol, achos rwy'n delio gyda thostrwydd sydyn yn y bola. Mae'r swydd yn golygu asesu'r claf wrth gyrraedd yr ysbyty, gwneud diagnosis a rhoi triniaeth benodol i'r afiechyd, gan gynnwys rhoi meddyginiaeth at y poen, hylif mewnwythiennol at y sychder, neu ragnodi gwrthfiotigau i'r haint neu sepsis. Ond yr her fwyaf ar hyn o bryd ydy dweud wrth glaf ei fod e'n 'positive' i Coronafeirws. Mae llawer o bobl sydd wedi cael Coronafeirws yn yr ardal hon wedi llwyddo i aros gartref a ddim wedi gorfod mynd i'r UGD. Ond mae cael canlyniad 'positive' wedi achosi sioc a straen ychwanegol ar ben y tostrwydd. Bydd yn braf gweld y Bwrdd Iechyd yn mynd nôl i normal cyn bo hir, ond fel rhan o'r tîm yn y Bwrdd Iechyd rydym wedi bod yn 'overwhelmed' gyda'r haelioni rydym wedi ei dderbyn wrth y cyhoedd. Wedi'r cwbl dyma ein gwaith ni, sydd bob amser â lefel o risg.

Gwirfoddolwr Dienw

oddi ar wefan www.lampetersupport.org

Cefais ddiwrnod braf ma's heddiw. Diwrnod arall o wanwyn hyfryd. Felly, doedd y negeseuon oedd gen i ddim yn ymddangos yn feichus o gwbl a'r teithio o gwmpas yn gyfle i werthfawrogi cefn gwlad sy'n newid mor gyflym ar hyn o bryd. Yn gyntaf, rhaid oedd casglu dau bresgripsiwn o ddwy fferyllfa wahanol. Roedd un o Lloyds ac roedd y ciw yr holl ffordd i lawr y ramp a rownd y gornel. Ond roedd pobl yn amyneddgar a doedden nhw ddim yn cwyno. Roedd rhai yn cloncan yn yr heulwen a doedd neb yn edrych fel petai nhw'n poeni bod fy wyneb wedi'i orchuddio â sbectol a mwgwd, a oedd yn eitha iasol yn fy marn i ond ar hyn o bryd, mae unrhyw beth yn mynd.

Yna cesglais fy mhresgripsiwn o fferyllfa Adrian Thomas, lle'r oeddwn yn ffodus i gyrraedd yno yn union fel yr oeddent yn agor ar ôl cinio. Tynnais lun o'u henfys werdd a gofynnais a allwn dynnu llun gyda'r gweithiwr a oedd yn wên o glust i glust gan ei bod hi'n gwisgo enfys werdd hefyd. Nesaf, cefais fy mhrofiad cyntaf o gasglu parsel o'r banc bwyd, sydd mewn man cysgodol yn Llambed. Ni allaf ond dychmygu pa mor brysur maen nhw ar hyn o bryd ond roedd y ddwy fenyw hyfryd yn barod ac yn aros amdanaf. Aethon nhw drwy gynnwys y parsel fel fy mod i'n gwybod yn union beth arall oedd angen arnaf i'w brynu. Roeddent yn garedig iawn a gwnaethant hyd yn oed ychwanegu bwyd cŵn i'r parsel. Cyn gadael, dyma gyfle i dynnu llun gyda bodiau i fyny.

Nesaf, es i i Sainsbury's i hôl rhagor o eitemau ar gyfer y gŵr oedrannus a oedd yn derbyn y parsel bwyd gen i. Roedd fy nghymdogion wedi rhoi rhestr fach i mi hefyd gan fod y ddau yn hunanynysu oherwydd bod ganddynt gyflyrau ysgyfaint difrifol. Maent wedi bod yn garedig iawn i mi dros y blynyddoedd ac o'r diwedd, dyma gyfle i dalu'r gymwynas yn ôl. Roedd y ciw rownd y gornel ac i fyny tuag at y Stryd Fawr. Ond dyw pobl ddim yn poeni am bethau fel hyn ar hyn o bryd. Wedi'r cyfan - does dim dewis gyda ni! Bu'r fenyw yn y ciw o fy mlaen i a minnau yn cloncan am drefniadau gwahanol y ddwy archfarchnad yn y dref. Dim ond rhai pobl ar y tro sy'n gallu mynd i mewn i Sainsbury's ac mae aelod o staff yn aros yn y drws er mwyn sicrhau bod pawb yn dilyn y rheolau. Ond does gan y Co-op ddim byd tebyg. Er bod nifer yn gallu mynd i mewn ar y tro, mae ganddyn nhw bolisi unffordd yn unig. Yn Sainsbury's mae modd dangos eich cerdyn Nectar i ddarllenydd electronig, ond yn y Co-op, rhaid ei roi i berson wrth y til - siawns na ellid darllen y codau bar?

Yn y cyfamser, gyda'r siopa wedi ei wneud, bant â fi ar heolydd culion y wlad er mwyn dosbarthu'r parsel bwyd. Wrth deithio drwy'r

pentrefi sylwais fod enfys mewn sawl ffenest siop. Trueni na wnes i stopio i dynnu eu lluniau! Beth bynnag, roedd un enfys wedi ei phinio ar glawdd a stopiais i dynnu llun honno. Roedd derbynnydd y parsel bwyd yn aros amdanaf ac roedd whilber gydag e. Cafodd y ddau ohonom sgwrs ddifyr ond rhaid oedd cadw pellter wrth gwrs. Cefais i gyfle i helpu rhywun a dw i'n ddiolchgar am hynny. Eto i gyd, dw i'n ymwybodol bod nifer o bobl yn newynu o'n cwmpas. Mae nifer o bensiynwyr fel arfer yn siopa bwyd mewn archfarchnadoedd fel Lidl yn Aberystwyth. Defnyddiant y pas bws am ddim i gyrraedd yno a braf yw gallu gadael gyda throli lawn a theimlo eu bod wedi cael gwerth eu harian. Ond o dan yr amgylchiadau presennol, nid yw hynny'n bosibl wrth gwrs ac felly maen nhw'n dibynnu'n llwyr ar gymorth cymdogion caredig.

Dydyn ni i gyd ddim ar y Rhyngrwyd, a hyd yn oed y rhai ohonom sydd arno, ni allwn i gyd gael slotiau dosbarthu o'r archfarchnadoedd oherwydd bod y galw mor uchel. Rydw i am i bawb feddwl yn galed am bwy y maent yn eu hadnabod a allai fod wedi rhedeg ma's o fwyd erbyn hyn. Mae'n debygol bod gan Grŵp Cefnogi Coronafeirws Llambed fwy o wirfoddolwyr na phobl sydd angen help. Felly nawr yw'r amser i chi gofrestru os ydych angen cymorth gan fod y gwirfoddolwyr yn barod i'ch helpu. Does dim angen parsel banc bwyd ar bawb - efallai yr hoffai rhai pe baech chi'n siopa ar eu cyfer neu gasglu presgripsiwn. Peidiwch â gadael i unrhyw un ddioddef esgeulustod, os gwelwch chi'n dda!

Des i nôl trwy Lambed er mwyn siopa yn y Co-op. Yn wir i chi, roedd fy wyneb wedi ei orchuddio trwy'r dydd. Trannoeth, wrth ddosbarthu nwyddau, des adref ffordd wahanol ac roedd cyfle felly i weld yr enfysau gwych yng Nghellan a Llanfair. Mae'r holl luniau yma wedi'u trosglwyddo i'r wefan hon i'w dangos ar y dudalen flaen. Stopiais mewn tŷ yn Llanfair pan welais luniau hyfryd yn y ffenestr. Roedd y teulu'n digwydd bod tu allan yn yr heulwen braf. Roedd Mam yn rhoi'r golch ar y lein ac roedd y plant a'r cŵn yn rhedeg o gwmpas yn hapus. Gofynnais a allwn dynnu llun ac wrth imi geisio gwneud hynny hedfanodd tedi bêr drwy'r awyr ac roedd e, o ganlyniad, yn rhan o'r llun. Cadwch lygad ma's amdano gyda'i enfys unigryw ei hun - mae e ar y dudalen hafan gyda'i fam.

Dathlu diwedd yr Ail Ryfel Byd

Ar Ddydd Gwener yr wythfed o Fai cynhaliwyd dathliadau i nodi 75 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd yn Ewrop. Daeth y rhyfel a newid sylweddol i gymunedau gwledig cylch Llanbed. Un elfen o'r newid yma oedd dyfodiad y faciwîs o Lerpwl i gymunedau gwledig amaethyddol fel fy mhlwyf enedigol Silian.

Dyma gyfieithiad o erthygl a ymddangosodd yn rhifyn o'r 'Cambrian News' i ddathlu hanner canrif ers i'r faciwîs gyrraedd Ceredigion. Yn yr erthygl mae Jessie Chandler, athrawes ifanc o Lerpwl ar y pryd, yn rhannu atgofion o'i chyfnod ym mhlwyf Silian yn dysgu'r faciwîs yn ysgol Silian tra'n byw yn y Ficerdy lleol. Diolch i'r Cambrian News am yr erthygl wreiddiol a'r llun a ymddangosodd yn fy llyfr am hanes plwyf Silian ('History of the Parish of Silian by Aled Evans).

Wedi iddi ddychwelyd i Lerpwl fe ddaeth hwyrach yn Mrs Jessie Paisley. Ei phriod oedd neb llai na'r rheolwr byd enwog Bob Paisley, sef y rheolwr fwyaf llwyddiannus yn hanes clwb pêl-droed Lerpwl. Dychwelodd hi a Bob i Lanbedr Pont-Steffan a Silian yn ystod y dathliadau yma.

Caredigrwydd - Ffordd o Fyw Silian

Ym 1941, ddwy flynedd ar ôl dechrau'r Ail Ryfel Byd, roedd Jessie Paisley yn athrawes ysgol ifanc a oedd newydd adael coleg hyfforddi. Pedwar deg wyth mlynedd yn ddiweddarach, fel gwraig Bob Paisley, cyn rheolwr byd-enwog Clwb Pêl-droed Lerpwl, mae'n cofio am y caredigrwydd a dderbyniodd hi pan gyrhaeddodd Silian, lle'r oedd i ddysgu'r plant faciwîs.

"Caredigrwydd yr athro ysgol bentref, caredigrwydd y rhai a gymerodd y plant i mewn - caredigrwydd fy ffrindiau da lle arhosais yn y Ficerdy.

Roeddwn i wrth fy modd â Silian, gyda'i un eglwys, un siop, ac un tafarn.

Roeddwn i wrth fy modd â fferm y Ficerdy, lle arhosais, gyda'r ieir, mochyn a dwy fuwch - Rosie a Daisy - ble cefais fy nysgu i ddod â nhw i mewn i'r beudy i odro.

Cefais fy llyfr gweddi gyda'r Gymraeg i lawr un ochr a Saesneg i lawr yr ochr arall, er mwyn i mi allu dilyn y gwasanaeth.

Roeddwn i'n meddwl ei fod yn syniad hyfryd a'r ffordd roedden nhw am gynnal y Gwasanaeth Diolchgarwch am y cynhaeaf unwaith y byddai pob ffermwr wedi gorffen y cynhaeaf."

Roedd hi'n araf iawn yn dysgu'r iaith - "Aeth y rhan fwyaf o bobl allan o'u ffordd i siarad Saesneg pan oeddwn i yno - ond fe wnaeth plant Lerpwl ei dysgu'n gyflym.

Fel oedolyn, y ffordd hapusaf i fyw yn Silian oedd ymuno yn yr holl weithgareddau lleol.

Rwy'n cofio'n arbennig cymryd rhan yn nrama'r geni Nadolig, a chael rhan Mair, gan mai hi oedd yr unig un nag oedd yn siarad, ac roedd y ddrama yn Gymraeg.

O ie, angel oedd un o fy faciwîs ac nid oedd ganddi unrhyw beth i'w ddweud chwaith.

Cawsom gyngherddau 'Wings For Victory' yn yr ystafell ysgol fach ac ymunodd fy faciwîs, a oedd erbyn hynny wedi gostwng i ddeg mewn nifer, yn frwd. Roeddent yn amrywio rhwng pump a 14 oed.

Rwy'n cofio'n dda yr ysgol gyda'i dwy ystafell, ei thân glo, a phot mawr o gawl yn mudferwi i ginio - wedi'i wneud o lysiau a chig o'r ffermydd lleol. Yna roedd y plant yn talu ceiniog yr wythnos am goco.

I rai o'r plant roedd yn rhyfedd iawn gan eu bod yn gorfod cerdded cryn bellter i'r ysgol tra adref yn Lerpwl, ond yn Silian roedd hi rownd y gornel yn unig.

Wnaethon nhw ddim ymweld â'r deintydd - daeth y deintydd, ynghyd â chadair, atynt. Rwy'n cofio un bachgen bach yn ceisio dianc drwy redeg lawr y lôn pan welodd y gadair!

Fe wnaeth y ffordd o gyfeirio at bobl fy swyno - roedd cymaint o Evansiaid a Jonesiaid. Evansiaid Tanygraig gyda'u lleisiau hyfryd, Mrs Evans, Y Ficerdy, Miss Evans, Yr Ysgol, Mrs Doctor Evans, Jones y Bws, Miss Jones, Glantawela - i enwi ond ychydig.

Mae atgofion yn dal i lifo yn ôl, ond mae yna un atgof arbennig olaf i mi.

Pan ddaeth fy amser i ddychwelyd i Lerpwl, roedd gwraig y Ficer wedi dod i wybod bod fy nhad yn Lerpwl yn dioddef o friw ar y stumog, ac roedd y diet angenrheidiol ar y pryd yn anodd ei ddilyn.

Felly fe'm hanfonwyd adref o dan bwysau syfrdanol cês mawr wedi'i lenwi ag wyau, cyw ieir, a menyn cartref o'r ffermydd lleol i'w helpu.

Yn ôl at y gair y dechreuais yr hanes yma gyda - caredigrwydd. Ni fyddaf byth yn anghofio Silian!"

Jessie Paisley

Cyflwyniad a chyfieithiad o'r erthygl wreiddiol Saesneg gan Aled Evans

Weldio D & W Welding
01570481153 / 07915543623
Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG
Darparu gatiau a rheiliau haearn ac hefyd eich holl waith weldio ac atgyweirio

ANDREW JAMES
PLYMWR PROFIADOL
OFTEC
Registered Business
Peiriannydd Gwres Canolog
Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pympiau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau
Multi Heat Boiler Care
01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Ceginau Lifestyle Kitchens Ltd
CELFI CEGIN A 'STAFELL WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR
SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257
www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

SEFYDLWYD 1797
D.LLOYD & SONS
MASNACHWYR COED A NWYDDAU ADEILADU
• TIMBER & BUILDER'S MERCHANTS •
Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas.
Glo meddal a chaled o'r ansawdd gorau.
Pelenni pren Brites ar gyfer llosgi mewn stofiau Biomass.
brites
FLO GAS
Glanrwyth, Pumsaint, Llanwrda, SA19 8YU
01558 650209/451
info@dlloydandsons.co.uk
www.dlloydandsons.co.uk

Cwmann

Pen-blwyddi

Pen-blwydd hapus i Chris Doughty, Caris a gyrhaeddodd ei hanner cant yn ystod y mis. Gobeithio dy fod wedi cael cyfle i ddathlu.

Dymuniadau gorau i Gwen Jones, Gelliddewi Uchaf a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed yn ystod mis Mehefin. Mae pawb yn y pentref yn cofio atoch chi ar ben-blwydd arbennig yng nghyfnod y cloi mawr.

Bydd Danny Davies, Brynteifi yn 80 oed yn ystod mis Mehefin. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddo a phob hwyl ar y dathlu.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwilym Price, Brynderi a fydd yn 90 oed ar ddechrau mis Mehefin. Dymunwn bob iechyd i chi ar gyrraedd oedran arbennig iawn.

Clwb 125 Pwyllgor Pentref

Mai 2020 1. David John Evans, Blaenbidernin-Isaf, Pencarreg, 137. 2. John Massey, Gellideg, Maesllan, Llambed, 19. 3. Elgan Jones, Coedmore Hall, Cwmann, 77. 4. Jennie Bracher, Glyndu, Cwmann, 99. 5. Sian Davies, Market Place, Llambed, 108. 6. Myra Jones, 15, Bryn-Yr-Eglwys, Llambed, 32. 7. Mattie Williams, Ddeunant-Hall Cwmann, 70.

Priodas Berl

Llongyfarchiadau i Aled a Helen Roberts, Caeronnen ar ddathlu eu Priodas Berl ar ddiwedd mis Mai.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â John a June James, Maesteg, Cwmann a'r teulu ar golli brawd ac ewythr ym mherson Alun James o Lanybydder a fu farw yn sydyn.

Cartrefn newydd

Croeso cynnes i Stephen a Michelle Richards a'r plant Lleucu, Llio a Brychan i'r pentref ac ymgartrefu ym Mherth-y-gwenyn, Cae Coedmor o Flaenau Ffestiniog.

Cofio Oriel Jones

gan Dylan Lewis

Bu farw Oriel Jones, yn ei gartref yn Llanfihangel-ar-arth yn 89 oed ar y 6ed o Fai. Rhoddodd bentref Llanybydder ar y map drwy sefydlu lladd-dy llewyrchus yma a oedd yn adnabyddus am gyflenwi prif archfarchnadoedd y wlad a thu hwnt.

Roedd yn ddyn teulu hoffus, yn ddyn busnes craff, yn ŵr bonheddig ac yn gefnogwr brwd i bopeth lleol. Ar ôl cael ei eni yn Llangeitho ym 1930, treuliodd Oriel ei blentyndod cynnar yn Llundain, gan ddychwelyd i fferm ei ewythr Jac yn Llanybydder pan ddechreuodd y rhyfel. Yma y dechreuodd ei ddiddordeb mewn cigyddiaeth a ffermio.

Yn 21 oed, cychwynnodd Oriel ei rownd gig ei hun a dechrau delio â da byw. Yna prynodd dyddyn bach ar gyrion y pentref, lle dechreuodd ladd anifeiliaid yn yr hen ysgubor, gan gyflenwi siopau cigydd lleol. Yna aeth ymlaen i gyflenwi'r cynnyrch Cymreig gorau i farchnad Smithfield yn Llundain. Ym 1978 cwblhawyd lladd-dy pwrpasol newydd yn Llanybydder a chafwyd trwydded allforio ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Bu mab Oriel, sef Barry yn cyd redeg y cwmni hefyd am flynyddoedd. Erbyn diwedd yr 80au roedd y lladd-dy lleol yn prosesu mwy na 5000 o ŵyn y dydd. Yn 2001 prynwyd Oriel Jones & Son Ltd gan gwmni Dunbia.

Fodd bynnag, arhosodd Oriel yn flaengar ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru ac roedd yn falch o fod yn rhan o ddiwydiant mor fawreddog, gan ymgymryd â swyddi fel Cadeirydd Ffederasiwn Cyfanwerthwyr Cig Ffres, Cadeirydd Cyngor Dosbarth Sir Gaerfyrddin a Chymrawd Cyngor Gwobrau Cymdeithasau Amaethyddol Brenhinol. Derbyniodd Oriel MBE hefyd am ei wasanaethau i amaethyddiaeth a'r hyn a roddodd y boddhad mwyaf iddo yn y blynyddoedd diwethaf oedd gweld ei ŵyr Shaun yn agor cigydd a siop gig gyfoes yn y brif ddinas gan barhau â'i enw - Oriel Jones i gwsmeriaid newydd a chynnal safonau uchel yn cyflenwi cig o Gymru.

Mae e'n gadael gwraig ac roedd yn dad, llystad, tad-cu ac yn hen dad-cu annwyl. Cydymdeimlir yn ddiffuant â'r teulu oll gan ddiolch am fywyd gŵr a gyflogodd gannoedd o bobl yn lleol dros y blynyddoedd.

Gwasanaethau Coed Llambed
LAMPETER TREE SERVICES
GWASANAETHAU COED LLAMBED
Cae Celyn, Heol Llanfair,
Llambed, SA48 8JX
01570 422819
www.lampetertrees.co.uk
Cwmni teuluol all ddelio â phob math o breblemau gyda choed.

WD Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants
Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk
Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: Sulwen Richards
Oed: 23
Pentref: Ffarmers
Gwaith: Cydlynydd Ymgyrchoedd Marchnata ym Mhrifysgol Aberystwyth
Partner: Sion
Teulu: Dad (Alun), Mam (Gwyneth), Eirwyn a Carwen

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Chware dwli ar y ffarm gydag Eirwyn a Carwen, a threulio amser gyda fy nghefndryd a'm cyfnitherod yn Tegfryn a Derlwyn.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Nyth Cacwn

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Wrth archebu Indian a mynd i'w gasglu o Shapla yn Llambed, 'nes i ddarganfod mai Shapla yn Bristol o'n i wedi ffonio yn wreiddiol. Doedd Eirwyn, Ceri, Carwen, Hefin na Sion ddim yn hapus wrth iddyn nhw orfod aros dros awr arall am eu bwyd...

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Gonestrwydd, mae'r gwir wastad yn dod mas yn y diwedd

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Nyrs

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Torri daffodils Mam gyda siswrn

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Yng nghwmni teulu a ffrindie – mae 'di bod yn 10 w'thnos hir hebddyn nhw!

Beth yw dy lysenw?
Sulz neu Chwaer Eirwyn/ Carwen.

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?

Ci Jack Russell mwy na thebyg – chwareus, ffyddlon ac yn hoffi fy mwyd

Beth yw dy arbenigedd?
Siarad!

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Yr her a'r amrywiaeth, does dim un diwrnod yr un peth

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
Y traffig yn Aberystwyth peth cynta' yn y bore!

Y peth gorau am yr ardal hon?
Cymuned – pawb yn barod i helpu ei gilydd

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Ma' pawb yn gw'bod busnes pawb!

Beth wyt ti'n ei wneud yn dy amser hamdden?
Cerdded, cwca, neu helpu ar y fferm

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobol sy'n meddwl bo nhw'n gwbod y cwbwl!

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Prynu car newydd – mae'n hen bryd!

Beth sy'n codi ofn arnat?
Tywyllwch.

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?
Ar waelod y star ar ôl cerdded yn fy nghwsg.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Cegin fawr – breuddwydio fydda i!

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Graddio gyda BA mewn Cymraeg Proffesiynol.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?
Nagw – ma bywyd yn rhy fyr i ddifaru!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Y fitbit – fi'n casáu mynd i gysgu heb gyrraedd 10,000 o gamau.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Hanner y baich yw ei rannu.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Cydwybodol, penderfynol a charedig.

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Pwy a ŵyr? Bydd rhai pobol yn beirniadu ta beth wnewch chi.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Ford Fiesta sydd wedi mynd â fi o un lle i'r llall ers i mi ddechrau gyrru.

Beth yw dy hoff air?
Seiens

A'th hoff adeilad?
Does unman yn debyg i gartre- felly tŷ fferm Cwmcelynen

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Mam gan bo hi wastad yn gwbod beth i 'neud mewn picil!

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Chinese.

Beth yw dy ddiod arferol?
Dŵr .

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
E-byst!

Beth yw dy hoff arogl?
Zoflora

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
Instagram.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
1,860.

Hoff gân ar dy ipod / dy restr chwarae?
'Fel hyn da ni fod' - Bwncath

Beth yw'r ffilm orau a welaist di ar Netflix?
Kingsman.

Sawl tecst y dydd wyt ti'n hala?
Un neu ddou, fi'n dueddol o

Cadwyn Cyfrinachau

godi'r ffôn!

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Llyged – am resymau ymarferol.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Mali, y ci.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Ysgrifennu'n daclus.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Cwsg! Stim lot o siap arnai heb o leia 8 awr o gwsg.

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
Gweithio gyda phlant mwy na thebyg.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Hoover!

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Lluniau a nodiadau mewn llawysgrifen wrth aelodau'r teulu.

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti yn blentyn?
Dadcu a Mamgu Tegfryn a Derlwyn.

Y gwyliau gorau?
Teithio o amgylch Thailand a Vietnam gyda Carwen ar ei ffordd adre o'i blwyddyn yn Awstralia

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?
Yr Wyddfa, Ynys Llanddwyn a Sgwd yr Eira.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Seland Newydd, Patagonia a'r Eidal.

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?
Fi wastad wedi meddwl mor neis bydde gallu tynnu lluniau gyda fy llyged.

Petaet ti'n anweladwy am ddiwrnod, beth fyddet ti'n ei wneud?
Busnesa!

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Gosod larwm a rhoi fy ffôn i chargo.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Yn iach ac yn hapus, gob'itho!

Mae rhifynnau digidol Papur Bro Clonc yn cyrraedd mwy o ddarllenwyr na rhifynnau papur arferol.
Lawrlwythwyd rhifyn Mai 1,031 o weithiau oddi ar wefan www.clonc.co.uk
a gall nifer y darllenwyr fod yn fwy na hynny. Rydyn ni i gyd yn hoffi rhywbeth am ddim!

Clwb Clonc

Mehefin 2020

£25 rhif 212 :
Menna Morgan, Llambed.
£20 rhif 445 :
Lewis Thomas, Llanllwni.
£15 rhif 411 :
Russell a Betty Prytherch, Llanllwni.
£10 rhif 374 :
Gwilym Jenkins, Nebo.
£10 rhif 150 :
Jac Evans, Llanybydder.
£10 rhif 453 :
Mrs Glenys Thomas, Llanybydder.
£5 rhif 256 :
Mrs Sian Jones, Cwmann.

Alan Barbwr

Llongyfarchiadau i Alan Williams am fasnachu fel barbwr yn Llanbed am 50 mlynedd. Mae ei siop farbwr a'i siop bysgota wedi bod yn adnabyddus yn yr ardal ers degawdau ac mae'n un o fusnesau unigryw Llanbed.

Dywed mai'r prif beth sydd wedi newid dros yr hanner can mlynedd yw'r amser sydd gan bobl i siarad. Pan ddechreuodd fasnachu yn 34 Stryd y Bont ym mis Mehefin 1970 roedd siop y barbwr yn ganolfan ar gyfer seiatau lu.

Yn yr un cyfnod roedd Idris yn farbwr ar y Sgwâr a Jack Oliver yn farbwr yn Heol y Porthmyn. Roedd Wyn Barbwr wedi dechrau hefyd chwe mis cyn hynny yn Stryd y Farchnad."Ond erbyn heddi mae pawb yn gaeth i'w clociau, a sdim amser i siarad fel yn yr hen ddyddie." meddai Alan.

Mae e wedi gweld sawl ffasiwn yn mynd a dod "O wallt hir i wallt byr, nôl i wallt hir hir a gwallt byr iawn."

Ei ddymuniad gwreiddiol oedd ymuno â'r heddlu, ond roedd yn rhy hen i ymuno â'r cadlanciau ac yn rhy ifanc i ymuno â'r llu. Felly aeth i hyfforddi fel barbwr ar gwrs trin gwallt dynion a menywod ym Mae Colwyn am ddwy flynedd a gweithio yn siop yr hyfforddwr yn y dref am flwyddyn cyn dychwelyd i Lanbed.

Pris torri gwallt ar y dechrau oedd tri swllt a chwe cheiniog, a chofia mai Cynfil Williams (Tad Enfys Siop Ddillad) oedd ei gwsmer cyntaf a'r Parchedig Trevor Lloyd ei weinidog oedd yr ail. A do, dychwelodd y ddau i dorri eu gwallt gydag Alan fel cwsmeriaid ffyddlon dros y blynyddoedd.

Cofia Alan dorri gwallt plismon un bore Sadwrn, a'i ringyll yn galw ar frys yn dweud bod yn rhaid iddynt fynd ar alwad i ddala lleidr mewn tŷ. Golygfa ryfedd oedd gweld yr un plismon ar ddyletswydd mewn dawns yn Llanbed gyda hanner haircut!

Daw cwsmeriaid Alan o bell ac agos gydag un cwsmer presennol yn teithio bob cam o Aberystwyth. Daw gweithwyr o'r de sy'n cludo nwyddau mewn i'r siop er mwyn torri gwallt yn ogystal â thwristiaid, ac Alan yn cofio pob un. "Rwy'n nabod wynebau" dywedodd.

A beth yw'r gyfrinach i fod yn farbwr llwyddiannus? Pam fod cwsmeriaid yn dychwelyd ato dro ar ôl tro i dorri gwallt? "Y gyfrinach yw gwrando ar beth maen nhw mo'yn" meddai Alan. Gall restru sawl teulu â phedair cenhedlaeth yn mynd ato i dorri gwallt.

Bwriada ddychwelyd i'w siop yn 57 Stryd y Bont pan ryddheir y cyfyngiadau presennol. Does dim unrhyw fwriad ganddo roi'r siswrn yn ei boced eto. "Rhaid mynd nôl" meddai "Maen nhw fel rhan o'r teulu. Wi'n methu gwrthod galwad i dorri gwallt. Mae'n ffordd o fyw."

Gobeithio y bydd yn gallu parhau am flynyddoedd eto, ac mae'n wych gweld y traddodiad busnes teuluol yn parhau gyda'i ferch a'i fab yng nghyfraith yn rhedeg Y Stiwdio Brint yn Llanbed hefyd.

Hel atgofion!

gan Catrin Bellamy Jones

Mae'r cyfnod diweddar yma wedi bod yn un anghyffredin iawn i ni gyd. Mae'n gyfnod llawn heriau, gofid a hiraeth, ond hefyd mae wedi bod yn gyfnod o gyfleoedd gan roi amser i ymchwilio, darllen, ail ymweld â hen atgofion ac ail greu cysylltiadau. Mae'r We yn aml yn cael ei weld fel melltith, a byddaf yn ei felltithio yn aml fy hun pan mae pum munud ar y cyfryngau cymdeithasol yn troi'n hanner awr cyn troi rownd! Ond, yn ystod yr wythnosau diwethaf rwy' wedi cael blas ar ambell dudalen sydd wedi ymddangos, yn hel hanes a lluniau ardaloedd sydd yn bwysig i mi - Llanybydder, Llanllwni a Llanwenog. Rwy' wedi treulio sawl awr ddiddorol yn edrych ar luniau o Lanybydder, rhai yn mynd nôl dros ganrif, eraill o fy nghyfnod i yn ysgol Llanybydder a rhai o gymeriadau fy mhlentyndod. Ar dudalen Llanllwni, mae cyfle wedi bod i wneud cysylltiadau sydd yn rhan o'r goeden deuluol a gweld lluniau o berthnasau sawl cenhedlaeth yn ôl. Mae lluniau ar dudalen Llanwenog wedi codi hiraeth am adre - er fy mod i ond yn y plwy' drws nesa!

Un prynhawn wrth fynd trwy dudalen Llanybydder, deuthum ar draws lluniau o Blas y Dolau neu Highmead. Dyma fy atgoffa o brosiect Cymraeg a wnes pan yn ddisgybl ym mlwyddyn 9 yn Ysgol Llambed ('90/'91) ac am benillion ysgrifennodd Davy John (Dolgwm Stores a Commerce House), Ordolau, Llanybydder i mi am Blas y Dolau. Roedd Davy John yn un arbennig am ysgrifennu penillion ac roedd bod amser yn barod ei gymwynas a chroeso cynnes bob tro ganddo ef a Maud ei wraig ar aelwyd Ordolau. Dyma fynd i dwrio, a do, deuthum o hyd i'r prosiect a'r penillion. Maen nhw'n werth eu darllen, a'u rhannu, ac mae neges amserol yn y pennill olaf o feddwl y sefyllfa yr ydym ynddi heddi'. Gan siarad â'r afon Teifi, mae'n ysgrifennu'

"Ar dy lannau ces fy magu
Dyma'r wers a roddaist Di,
Pan ddaw rhwystrau yn fy erbyn
Igam-ogam pia' hi".

Dyma'r gwaith yn ei gyfanrwydd:

Plas y Dolau

Dwed i mi 'r hen "Afon Teifi"
Un gyfrinach fach neu ddwy
Gwn dy fod yn gweled llawer
Pan yn llifo drwy y plwy'.
Clywaist sŵn yr hen gyngherddau
Traed y meirch yn dod i'r plas
A chael cip ar fawrion Prydain
Cyn Victoria – hynny mâs.

Yr hen deulu "Dafis-Evans"
Y goreuon yr hen fro
Rhoi ar fap 'r hen blwy' Llanwenog
Sydd yn aros - ers cyn cô.
Cofio'r teulu, tras bonheddig
Ar y lawnt ac ar y ddôl
Merched heini- bechgyn lysti
Yr hen amser – oesau nôl.

Yr hen Gyrnol – eitha' bachan
Ac yn Gardi – hyd y bôn
Os yn enwi - Abertegan
Am y tarw, peidiwch sôn.
Gorfod talu wnaeth 'r hen sgweier
O, o'dd Jack yn fachan cwic
Cael 'r hen "Herbert" fynd i'r boced
Yr oedd hynny'n bach o dric.

Nawr 'r hen Deifi, dywed eto
Princess Christian – welaist hon
Pan ddaeth lawr i Lanybydder
Agor 'spiti newydd sbon.
A fu hon tu fâs i'r castell?
I gael pip â'th ddyffryn di
Y prydfertha shwr yng Nghymru
Heddiw, fel yr oesau fu.


"CAIN WYBODAETH."
LLANYBYTHER.
FOURTH ANNUAL
EISTEDDFOD
HELD AT THE
ORGAN HALL, HIGHMEAD,
Easter Monday, April 8th, 1912.

Gwn y clywaist ambell 'steddfod
Ac o'r "corau" - llawer cân
A'r adroddwyr yn cystadlu
Para' oedd – hyd oriau mân
Sŵn rhyfeloedd yn yr ardal
Lawr yn Rhuddlan a Thŷ Cam
Crugywhil – y brwydro caled
Diflas oedd ar lawer mam.

Gwn dy fod yn cofio'r newid
Ddaeth i blasdy hen "Highmêd"
Sŵn y plant a glywi yno
Cer a'r newydd hwn ar led
Dwed wrth bawb wrth fynd drwy'r dyffryn
Ar dy daith i lawr i'r môr
Fod 'na "Oxford" ar dy lannau
Ac ar agor mae ei dôr.

Diolch am adnoddau daear
Diolch am gael lle mor iach
Am yr ysgol newydd yma
I bob plentyn, mawr a bach.
Dywed eto, cyn terfynu'n
Ddistaw bach yng ngolau'r lloer
Pam mae'r byd yn mynd i ryfel?
Pam mae cariad dyn mor oer?

Ar dy lannau ces fy magu
Dyma'r wers a roddaist di
Pan ddaw rhwystrau yn fy erbyn
Igam- ogam pia' hi.
Llongyfarchiadau ysgol Dolau
A boed i ti fythol hedd
Dal fydd murmur sŵn yr afon
Byddwn ninnau yn y bedd.

D.J Davies

Ychwanegodd Davy John ôl nodyn i'r cerddi, yn egluro hanes Tarw Abertegan. Dyma grynodeb o'r esboniad. "Ar y pryd, roedd y stori wir hon ar wefusau pawb - o dop Alltwalis hyd Borth. Digwyddodd yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif. Ar y pryd roedd Ystâd H. Davies Evans yn berchen ar lawer o ffermydd yn ardal Llanwenog ac un o'i denantiaid oedd Jack Abertegan (dim perthynas i'r deiliad presennol). Un diwrnod, penderfynodd tarw Plas y Dolau fynd ar ymweliad draw at wartheg Abertegan a chymerodd y tarw Du Cymreig "Lwybr Tarw" draw am Abertegan. Ond, roedd "maestro" ei hunain gan wartheg Abertegan - tarw Henffordd, a'r canlyniad oedd brwydr rhwng y ddau darw. Lladdwyd tarw Abertegan yn yr ornest. O weld hyn, aeth Jack yn syth am Blas y Dolau i weld yr hen Gyrnol gan wybod yn iawn os oedd yn mynd i ddweud yn union beth ddigwyddodd, y byddai'r Cyrnol yn ceisio dod allan o'i gyfrifoldeb gan ei fod yn go dynn â'i arian! Ond, roedd Jack yn dipyn o gymeriad ac fe gynlluniodd drap na allai Herbert Evans ddianc ohoni. Dywedodd Jack wrth y Cyrnol ar gyrraedd Highmead " Rwyt ti yn gwybod y gyfraith yn well 'na fi. Yn ôl y gyfraith, beth fyddai yn digwydd pe byddai fy nharw i yn dod draw fan hyn ac yn lladd dy darw di?". "Wel" medd y Cyrnol gan godi ei hun i'w lawn daldra, "Byddai yn rhaid i ti dalu gwerth y tarw i fi". "Iawn" atebodd Jack "Daeth dy darw di draw a lladd fy nharw i heddi". Doedd dim gallodd y Cyrnol ddweud wrth hyn ac fe dalodd y meistr gwerth llawn y tarw i Jack. Fersiwn y dydd o Dafydd a Goliath!

Mae sôn yn y penillion hefyd am Eisteddfodau yn y Plas. Yn fy mhrosiect mae copi gwreiddiol o raglen " Llanybydder Fourth Annual Eisteddfod held at the Organ Hall, Highmead, Easter Monday, April 8th, 1912". Mae'n werth

Hel atgofion!

gan Catrin Bellamy Jones

mynd ar dudalen Facebook Caru Llanybydder i weld lluniau o eisteddfodau eraill yn y pentref gyda thorfeydd enfawr a phafiliwn!

Pan oeddwn yn tyfu lan yn Hendy, drws nesaf i Blas y Dolau, Ysgol oedd yn Highmead. Mae gen i atgofion melys o glywed sŵn chwerthin plant yn dod o gyfeiriad yr ysgol a'r garddwyr yn gweithio yn y gerddi yn tyfu bwyd i'r gegin. Byddem yn ddiolchgar yn aml am y cennin oedd yn cael eu gadael ar y wal i ni!

Ydy, mae'r wythnosau a'r misoedd diwethaf yma wedi bod yn rhai gwahanol iawn ond mae wedi bod yn braf cael yr amser i hel atgofion trwy luniau, hanesion a cherddi. Cofiwch, rwy'n disgwyl ymlaen yn eiddgar i allu mynd dros dop Gorsgoch, draw i Gwmsychbant, lawr am Frynteg, Rhuddlan ac o fewn golwg Highmead ac adre i fy ngwreiddiau.

Clybiau Ffermwyr Ifanc

CFfI Sir Gâr

Rydym yn fudiad ieuenctid sy'n darparu cyfleoedd i 700 o aelodau rhwng 10 a 26 oed sy'n byw yn Sir Gâr. Mae 23 o Glybiau yn Sir Gâr sy'n cael eu rhedeg gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc. Mae'r mudiad yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau arbennig i'r aelodau wrth iddynt ddatblygu sgiliau newydd, ennill hyfforddiant gwerthfawr, teithio'r byd, bod yn rhan annatod o'r gymuned a chael cyfle i wneud ffrindiau am oes.

Oherwydd y feirws ofnadwy yma, fel nifer fawr o fudiadau eraill, mae holl weithgareddau a chystadlaethau'r Mudiad wedi eu canslo neu eu gohirio am y tro. Er hyn, rydym fel Mudiad yn ymfalchïo yn y gwaith mae'n aelodau a'n Clybiau yn parhau i'w wneud yn eu Cymunedau lleol. Dyma ragolwg o'r gweithgareddau mae'r Mudiad wedi ceisio parhau i'w wneud:

Ers dechrau'r "Lockdown" mae Clybiau Ffermwyr Ifanc ar draws Cymru wedi mynd ati i gynnig cefnogaeth i'w Cymunedau lleol yn ystod yr amser ansicr yma, ac mae'r Clybiau i gyd yn Sir Gâr wedi mynd ati i gefnogi nifer fawr o aelodau yn eu Cymunedau lleol i siopa bwyd a chasglu meddyginiaeth gydag ambell aelod wedi rhoi ambell beth yn wythnosol i'r ganolfan fwyd leol.

Bu aelodau Clwb Llanllwni yn siopa i bobol y gymuned. Os ydych chi, neu rywun chi'n adnabod angen cymorth mewn unrhyw ffordd, cysylltwch â ni oherwydd gallwn gynnig cefnogaeth i chi.

Gan nad oes modd i Glybiau gwrdd bellach, mae nifer fawr o Glybiau wedi mynd ati i gwrdd ar wefannau megis Zoom neu Skype i gymdeithasu gyda'i gilydd. Mae'r gwefannau yma yn grêt i gynnal noson gwis neu hyd yn oed bingo.

Fel Sir, rydym wedi bod yn brysur yn rhoi ambell dasg ar ein gwefannau Cymdeithasol er mwyn i'r aelodau roi cynnig ar amryw o bethau megis coginio neu hyd yn oed wnïo. Mae'r Mudiad yn Sir Gâr hefyd yn dathlu 75 mlynedd eleni, ac fel ffordd o ddathlu hyn yn ystod yr amser ansicr yma, rydym yn rhoi fideo i fyny o aelod yn dangos "diwrnod yn ei fywyd" pob nos. Mae'n siawns i'r aelod ddangos beth mae'n ei wneud o ddydd i ddydd a hefyd yn rhoi siawns i aelodau eraill ar draws y Sir ddod i 'nabod aelodau gwahanol.

Yn ogystal â CFfI Sir Gâr, mae CFfI Cymru wedi creu Llwyfan 'Rhithwir' - lle mae heriau yn cael eu cyflwyno bob pythefnos, heriau sydd yn ymwneud â thasgau megis Gosod Blodau, Chwaraeon, Coginio, Crefft ac Amaethyddiaeth. Mae'n siawns i aelodau ar draw Cymru gymryd rhan, a chadw mewn cysylltiad gyda'r Mudiad.

Mae Diwrnod Rali'r Mudiad wedi bod yn un o'r uchafbwyntiau yng nghalendr y Mudiad yn flynyddol ers degawdau ond yn anffodus roedd yn rhaid gohirio'r diwrnod yma eleni. Er hynny, penderfynwyd creu Rali Rithwir ar lein, gan osod pedair tasg wahanol i'n haelodau sef Creu clawr i gylchgrawn Egin y Sir, Barnu Stoc Gwartheg Godro, Fideo Tik Tok a hefyd unrhyw ddarn o Grefft. Cafwyd nifer fawr o'n haelodau yn mentro ar y tasgau a chafwyd eitemau o safon uchel.

Ar Ddydd Sadwrn 9fed Mai (diwrnod Rali 2020 i fod) buom yn rhoi ambell fideo a lluniau o ddiwrnod Rali'r gorffennol ar ein gwefannau cymdeithasol, er mwyn rhoi'r siawns i'n haelodau presennol a'r cyn-aelodau edrych nôl ar yr amseroedd fel aelod.

Er nad oes neb yn gwybod beth sydd yn mynd i ddigwydd yn yr wythnosau neu'r misoedd nesaf, rydym ni fel CFfI Sir Gâr yn benderfynol i ddal ati a pharhau i fod o fudd i'n Cymunedau lleol, cadw mewn cysylltiad gyda'n haelodau a ffrindiau'r Mudiad.

Rydym yn eich croesawu i ymuno â ni ar ein gwefannau cymdeithasol – i weld mwy o'r pethau rydym yn eu cynnig. Os ydych am fwy o wybodaeth am unrhyw beth hefyd – cysylltwch â ni.

Facebook – Carms YFC – CFFI Caerfyrddin
Twitter - @cffisirgar
Instagram – cffisirgar
Snapchat – cffisirgar
E-byst - sir.gar@yfc-wales.org.uk
Ffôn - 01267 237 693

Dyma aelodau Clwb Llanllwni yn cynnal noson gwis arall ar Zoom gyda gwisg ffansi - Sili Hat!

SiAraDwyR NEwYdd!

COLOFN Y DYSGWYR gan Gwyneth Davies

Gobeithio eich bod chi'n cadw'n saff yng nghanol yr holl ansicrwydd yma. Mae'r gwersi Cymraeg yn cael eu cynnal o hyd beth bynnag a phob dosbarth yn cwrdd yn wythnosol ar Zoom. On'd yw technoleg fodern yn gallu bod yn handi? Yn ystod y Cloi Mawr, mae Lindsay Probert o Ddosbarth Uwch Llambed wedi bod wrthi'n ddyddiol, chwarae teg iddi, yn cofnodi ei hanes personol ar ffurf dyddiadur a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma i chi flas ohono:

'Fy Nyddiadur i
yn ystod y Cloi Mawr'

Dydd Gwener

Aethon ni i siopa am fwyd heddiw. Wel es i i'r siop, arhosodd Bruce fy ngŵr yn y car. Nid wyf yn ymddiried ynddo i wneud pethau'n iawn. Byddai fe'n cyffwrdd â phopeth ac yna'n crafu ei drwyn. A dydy e byth yn golchi ei ddwylo am ddigon hir. Dw i'n trio ei gael i ganu 'Pen-blwydd Hapus' ddwywaith ond mae e wedi gorffen cyn fi bob amser! Nid oedd llawer o ddewis yn yr archfarchnad. Nid oedd pannas, madarch, neu flawd yno. Roedd llawer o'r silffoedd yn wag. Beth bynnag, o leiaf wnes i ddim gwastraffu amser yn ceisio penderfynu pa fath o flawd i'w brynu - doedd dim!

Dydd Sadwrn

Y penwythnos o'r diwedd! Ond ar hyn o bryd, mae'r dyddiau i gyd yn teimlo'r un peth. Mae hi'n ddiflas heddiw. Mae hi wedi bwrw glaw trwy'r dydd. Mae'r bibell newydd a archebais o Amazon yn cyrraedd heddiw hefyd. Dyna mae'n debyg pam ei bod hi'n bwrw glaw! Dw i'n dechrau gwneud masgiau ar gyfer gweithwyr iechyd. Dw i'n defnyddio patrwm o'r rhyngrwyd. Pan dw i wedi gorffen y masgiau, bydda i'n ffonio 'Gwnìo Masgiau' ac yna bydd gwirfoddolwr o'r elusen yn eu casglu nhw. Dw i eisiau gwneud rhywbeth i helpu. Mae angen llawer o fasgiau on'd oes?

Dydd Sul

Trychineb! Symudais i fy min mwydod bythefnos yn ôl. Dw i'n defnyddio mwydod i droi gwastraff cegin yn gompost. Mae tap ar waelod y bin i ddraenio hylif. Gwnes i ei gau i symud y bin. Anghofiais agor y tap eto. Felly boddwyd yr holl fwydod! Dw i'n teimlo'n euog iawn.

Dydd Llun

Dw i wedi bod yn brysur heddiw, yn plannu hadau. Dw i wedi plannu ffa, ciwcymbr, dail salad, cêl a chard. Hefyd dw i wedi symud fy mhlanhigion tomato i botiau mwy gan ei bod yn dal yn rhy oer iddyn nhw yn y twnnel polythen. Mae fy ystafell wely sbâr yn edrych fel tŷ gwydr!

Dydd Mawrth

Es i ati i lanhau'r tŷ eto - diflas! Glanhau'r ffenestri hefyd gan ddefnyddio fy mhibell newydd. Mae tu allan y ffenestri yn edrych yn lân nawr ond mae'r tu mewn yn dal yn fudr, ond bydda i'n glanhau tu mewn i'r ffenestri eto.

Dydd Mercher

Dw i wedi bod yn gwylio'r nyth gweilch ar we-gamera byw. Diddorol iawn. Mae gan y pâr gweilch ddau wy. Gwelais i'r gwryw yn dod â bwyd i'r fenyw - fel mae Bruce yn ei wneud i mi. Mae e'n coginio iau a chig moch heno. Blasus iawn!

Dydd Iau

Mae hi'n braf heddiw eto. Hoffwn i fynd i'r traeth ond allwn ni ddim oherwydd y feirws. Rhaid i ni aros gartref. Wel does dim gwahaniaeth achos mae'n ddydd Iau ac mae'n amser cael gwersi Cymraeg ar Zoom!

Pencarreg

Llyfr i'r Arddegwyr

Mae Heiddwen Tomos, Dolgwm Uchaf wedi cyhoeddi llyfr newydd sef nofel i'r arddegwyr o dan y teitl "Heb Law Mam".

Llyfr sy'n addas i ddisgyblion blynyddoedd 6 i 9 oed ydyw. Mae'n cynnwys themâu fel cyfeillgarwch ffug, problemau teuluol a charwriaethol gyda digon o hiwmor a dwdls. Mae ar werth am £7.50 yr un ac ar gael ar y we neu drwy gysylltu â Heiddwen yn ystod cyfnod y cloi mawr pan nad yw'r siopau llyfrau ar agor.

Adar

Mae mor braf gweld nythaid o gywion Canada eleni eto wedi deori ar lyn yn Nolgwm Uchaf. Maent yn nythu'n rheolaidd ers ryw ugain mlynedd gan roi llawer o bleser i'r teulu. Erbyn hyn maent wedi dilyn Nant Dolgwm i lawr i'r Teifi i ymuno gyda chlegar niferus eu ffrindiau!

Cwrtnewydd

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Lyn ac Eileen Rees, Awel-y-rhos ar ddathlu eu Priodas Aur yn ystod mis Mai. Iechyd da i chi am flynyddoedd eto.

Eisteddfod T

Llongyfarchiadau i Ela Mablen Griffiths-Jones, Fronddu ar ennill dwy 2il wobr yn Eisteddfod T yn ddiweddar. Un am ganu Bl.4-6 a'r llall am Unawd Cerdd Dant Bl.4 – 6. Cynhaliwyd Eisteddfod T gan fod Eisteddfod yr Urdd wedi ei chanslo oherwydd Covid 19.

Colled

Yn ystod dyddiau olaf mis Mai daeth ton o dristwch dros ardal eang pan ddeallwyd am farwolaeth sydyn Alun James, gynt o Penlan isaf ond nawr yn byw yn Llanybydder. Alun oedd ein cynghorydd Sir am flynyddoedd tan 1999 ac fe fu yn amaethu ar fferm Penlan isaf ac yn rhedeg lori i symud anifeiliaid ayyb tan iddo ymddeol a symud i fyw i Lanybydder. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r teulu oll yn ei galar o golli person annwyl iawn.

T. Emyr Jones
Adeiladwr
Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services
Gas/LPG & Oil Services
Renewables • Installation
Maintenance • Breakdowns
Boiler Servicing • Sprinklers
07969 289679
d.doughtyplumbing@gmail.com

Ruth Thomas
a'i Chwmni
Cyfreithwyr
Canolfan Fusnes Coedmor,
[Hen Ysgol Coedmor],
Cwmann, Llambed, Sir Gâr.
SA48 8ET.
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones Cyf
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Tai Bwyta / Siopau
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk
Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoledig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

E.JONES
PLUMBING & HEATING LTD
01570 480 108
07811 701 857
office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk

Côr Bytholwyrdd

gan Rhiannon Lewis

Tua mis Medi 2018 oedd hi a finne'n eistedd yn gyffyrddus yng nghaffi Mark Lane, yn edrych 'mlaen at fwyta brecwast hwyr rhyw fore. Mair Panteg ddaeth â'r pryd i'r bwrdd ac wrth ei osod o'm blaen, dyma hi'n dweud "o'n i wedi meddwl cael gair" - dyma fi'n dechrau becso a meddwl mod i wedi ei ypsestio, ond fe aeth hi mlán - "ma sawl un ohonon ni wedi bod yn siarad" (Janet a Mair siŵr o fod) "ac yn meddwl, 'na dda fydde fe se chi'n dechrau Côr pensiynwyr i gystadlu yn Eisteddfod Ceredigion, côr i rai fel ni". Lwcus mod i heb ddechrau ar y pryd neu bydden i wedi bwldagu yn y fan a'r lle , achos er mod i'n edrych ymlaen yn fawr at yr Eisteddfod, doedden i ddim wedi meddwl mlaen mor bell â hynny, yn wir doedd 'na'r un pwyllgor wedi cyfarfod a phopeth yn teimlo mor bell i ffwrdd. Aeth yr wythnosau'n fisoedd ac er prysurdeb y pwyllgorau dewis testunau, oedi 'nes i. Fe ddaeth, ac fe aeth Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy yn Llanrwst, a finne'n sylweddoli ei bod hi'n bryd 'neud rhywbeth am y syniad os oedd e'n mynd i ddigwydd. Yn y cyfamser ro'n i wedi cael gair bach tawel gydag ambell un, a phawb yn cytuno â Mair, y bydde fe'n syniad da.

Roedd lot fawr o gwestiynau yn mynd rownd a rownd yn fy mhen! Sut oedd mynd ati i sefydlu côr? Pryd ddylen ni gyfarfod gynta'? Pa noson fyddai fwyaf cyfleus? Sut fydden i'n hysbysebu'r côr? Ble fydden ni'n ymarfer? Ac yn bwysicach na dim - pwy fyddai'n fodlon cyfeilio? A dyna'r cwestiwn cyntaf i'w ateb – dyma ofyn i Lois (Williams) ac fe wnaeth hi dderbyn yn syth, gan ddweud "na neis bydd mynd i rywle lle mai fi fydd yr ieuenga' yno". Awtsh! Erbyn hynny roeddwn i wedi meddwl am enw - wel 'na - gwell i fi gyfadde'n syth mai nid fi feddyliodd am yr enw 'Bytholwyrdd'. Cael sgwrs oeddwn i gyda Hywel Gwynfryn wrth i ni ddarlledu i BBC Radio Cymru o Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018, gan dynnu sylw at y ffaith bod teitl y 'Côr Pensiynwyr' wedi newid i 'Côr i rai dros 60 oed' - a dyma Hywel yn dweud yn syth - "ma 'da fi deitl gwell na ' na - y corau Bytholwyrdd"! Felly yn dawel bach roedd enw gen i yn fy mhen. Enw i gôr - ond dim côr eto! Mae Hywel yn f'atgoffa'n aml mai fe pia'r hawlfraint i enw'r côr ac mae'n meddwl y dylai gael ei ethol yn Llywydd Anrhydeddus oherwydd hynny!

Nôl at y sefydlu. Ar ôl cael sgwrs gydag ambell un - Mair, Janet, Elin, Mary D a Lois yn bennaf, dyma benderfynu lansio'r côr ym mis Tachwedd (2019), ar ôl tymor y gwasanaethau diolchgarwch, a mynd am nos Fawrth fel noson ymarfer er mwyn trio peidio gwrthdaro gydag unrhyw ymarfer neu gyfarfod arall yn yr ardal. Dyma fynd ati wedyn i drefnu'r lansiad a chael caniatâd i wneud hynny yng Nghapel Brondeifi. Lluniodd Elin boster ac fe gysyllton ni gyda rhaglenni amrywiol Radio Cymru ac S4C er mwyn cael ychydig o hysbys, gan groesi bysedd y byddai rhai cantorion yn dod. Ac fe ddaeth nifer fawr - dros 60 i'r noson gyntaf a'r canu pedwar llais yn dda. Dyma ni wedyn yn cyfarfod yn Festri Brondeifi'n wythnosol, gyda nifer y cantorion yn cynyddu o wythnos i wythnos, ac ymarfer ar gyfer ein perfformiad cyntaf yng nghyngerdd blynyddol Cymorth Cristnogol, 'Carol Cerdd a Chân' yn Eglwys Sant Pedr cyn y Nadolig. Ar noson stormus o Ragfyr, dyma ni'n perfformio i gynulleidfa garedig a gwerthfawrogol.

Cawsom seibiant wedyn yn ystod deufis cynta'r flwyddyn, cyn ail-ddechrau ar yr ymarfer ym mis Mawrth a chynllunio rhaglen y côr ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion. Daeth nifer hefyd i gefnogi'r canu yn narllediad 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' o Gapel Penybont, Llandysul, a hynny wythnos cyn y clo mawr sydd wedi rhoi stop ar y cyfan. Beth nesa'? Pwy a ŵyr? Gobeithio'n fawr y gallwn gyfarfod yn fuan – rwy'n gweld eisiau'r canu, y cwmni a'r hwyl. Mae bocs mawr o gopïau ar lawr ystafell y piano yn Tanlan, yn barod i'w gario i'r ymarfer nesaf. Ai zoom yw'r ffordd ymlaen? Yn sicr mae hynny'n un opsiwn i'w ystyried. Ond ar hyn o bryd, y peth pwysicaf yw ein bod i gyd yn cadw'n iach a diogel. Os oes diddordeb gennych mewn ymuno â Chôr Bytholwyrdd, yr unig gymwysterau sydd angen yw eich bod yn hoffi canu, yn hoffi cymdeithasu ac y byddwch chi'n 60 oed neu throsodd erbyn Haf 2021. Cysylltwch â mi os hoffech chi fwy o fanylion neu os oes syniadau gennych ar sut y gallwn ail-ddechrau ymarfer mrhiannonlewis@hotmail.com

Cadwch yn saff!

MiS y PaPUr NeWYdD

Colofn Dylan Iorwerth

Hen fywyd newydd

Tros gyfnod y cyfyngu mawr, dw i a chriw bychan wedi bod yn gweithio ar gasglu at ei gilydd gyfrol o atgofion gwraig o'r enw Kate Davies, o Faesymeillion, ger Llandysul. Nid cofio'i bywyd ei hun y mae hi, mewn gwirionedd, ond cofio bywyd ei hardal ar ddechrau'r ganrif ddiwetha' ... y bobol, yr amgylchiadau a'r digwyddiadau. Iddi hi, dau o ddigwyddiadau mawr y flwyddyn oedd Ffair Dalis Llanbed a Ffair Llanybydder, cerrig milltir i fesur taith y deueddeg mis. Fel arall, roedd hi a'i theulu – a'r rhan fwya' o'i chymdogion – yn byw o fewn cylch bychan, heb fynd ddim pellach nag ardal Clonc neu Geinewydd yn yr haf ac ambell un yn mentro i Gaerfyrddin.

Yn y dyddiau hynny cyn ceir a bysys, felly yr oedd hi ym mhob ardal wledig fel hon, siŵr o fod. Eich byd oedd yr ardaloedd oedd o fewn cyrraedd hawdd ... yn debyg iawn i fel y mae hi heddiw. Wrth freuddwydio am fannau i fynd iddyn nhw pan fydd y caethiwed heibio, fy uchelgais mawr i ydy nid mynd i Mallorca neu ynysoedd Groeg ond cyrraedd y Cei, bwyta chips ar wal yr harbwr ac edrych dros y môr. Erbyn hyn, mae mynd i Lanbed unwaith yr wythnos i gasglu bwyd o'r siop yn un o'r uchafbwyntiau a'r bwyd ei hun hefyd, rywsut, yn fwy gwerthfawr. Ac mae'n gyfle hefyd i gerdded o'r dre' i'r coedwigoedd uwchben sy'n ymddangos i ni lawn mor hardd â Barnard Castle.

Y lleol yn fwy

Dyna un peth gobeithiol a allai godi o drafferthion y tri mis diwetha'; mae'n bosib y byddwn ni'n gweld mwy o werth yn y lleol ac, yn sylweddoli mai amgylchiadau a phersbectif sy'n rhoi gwerth. Os ydech chi'n cerdded mewn coedwig, mae un bwlch bach a chip ar y mynyddoedd pell gystal â môr o olygfa.Ystyr hynny fyddai gwneud mwy o siopa lleol, bodloni ar deithiau byrrach i fannau llai pell a dechrau sylwi mwy ar y manylion o'n cwmpas. Heb orfod rhuthro o un lle i'r llall, a thrwy fodloni ar beidio â neidio i'r car bob cyfle, mae yna lot i'w ennill. Y gwanwyn yma, er enghraifft, rydw i wedi sylwi mwy nag erioed o'r blaen ar ffyrdd natur o'i hamddiffyn ei hun ... y cyfars bach o blisgyn y mae coed bythwyrdd yn eu tyfu o amgylch eu hegin-ddail ... y ddesgil o ddeilen y mae coed ffawydd yn eu magu i warchod y tyfiant cynta'. Dw i'n gwybod ers o leia flwyddyn am nyth barcutiaid ond dim ond eleni y daeth yna gyfle i'w gwylio a sylwi ar aderyn bach – aderyn y to, fwy na thebyg – yn hedfan yn ôl ac ymlaen at ei nyth. Yn ôl yr arbenigwyr, mae'r bychan yn nythu yno hefyd, yn manteisio ar gastell y cawr.

Y gobaith

Pan fydd y caethiwo heibio, mi allai'r teimladau yma fod o ddefnydd. Wedi'r cyfan, mae yna argyfwng llawer mwy mewn peryg o'n cyrraedd ni ... a newid hinsawdd ydy hwnnw. Ynghanol y cyfyngiadau mae'n hawdd diolch am y tywydd braf ac anghofio mai dyma un o'r misoedd Mai sycha' inni eu cael erioed. Ac, wrth gwrs, mi fyddwn ni'n colli hefyd. Am fisoedd os nad blynyddoedd, mi fydd hi'n anodd dod at ein gilydd yn dyrfaoedd gweddol o seis ... fyddai Kate Davies, druan, ddim yn cael yr un hwyl yn Ffair Dalis na Ffair Llanybydder na'i chyfarfodydd lleol. Heb sôn am fynd allan i garu.

Mae'n anodd i bobol ifanc; hel a chymysgu ydy gogoniant bywyd i'r rhan fwya' a mentro y tu hwnt i'r ffiniau ydy lot o'r hwyl. Y peryg ydy y bydd y cyfryngau 'cymdeithasol' yn dod yn gryfach fyth, yn rhoi'r argraff o ddod â ni'n nes, wrth ein gwthio ni fwy ar wahân.

Y gamp i ni fydd cadw'r enillion a thrio ail-greu bywyd sy'n defnyddio technoleg i gynnig cyfleoedd heb gau i lawr ar ein gweithgaredd ein hunain.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
ADVE
ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS CYFREITHWYR
33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 post@adve.co.uk

Carpedi
Gwyn Lewis Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau, Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

TEIARS
HUW LEWIS
TYRES
TEIARS
BRECS
BATRIS
GWACAWYR
HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnci ffwnci
Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.
Sioned Green a Mared Jones
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed
☎01570 423135
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

COMPASS
OFFICE SUPPLIES
Am eich holl ddeunydd swyddfa
Uned 12 Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.
☎ 01570 422955
01570 422232

PJ PHILIPJONES FINANCIAL SOLUTIONS
Agricultural, Construction and Business Finance
Cyllid Amaethyddol, Adeiladu & Busnes • Offer Amaethyddol ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau Masnachol • Cyfleusterau Amddiffiniad Offer Newydd a Ddefnyddir
Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
07757 668339 / 01544 340562
bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
www.pjfinancialsolutions.co.uk
Authorised and regulated by the Financial Conduct Authority No FRN 690293

Yn y Gegin gyda Gareth

Daliwch ati i goginio!

Gyda chyfnod dan glo yn ein hamgylchynu ni o hyd, mae yna ryw deimlad diogel yn y gegin wrth i ni gyd mae'n siŵr arbrofi a chael pleser annisgwyl yn coginio ryseitiau newydd.

Cyfle i fod yn greadigol a'r gegin felly yn ddihangfa o'r sefyllfa ryfedd sydd ohoni.

Felly mwy o ryseitiau o gegin Clonc i chi drio'r mis yma a mwynhau prydau yn nhywydd teg yr ardd. Cadwch i goginio a chadwch yn ddiogel.

Gareth

Pwdin cwpan te

100g menyn meddal
100g Siwgr caster
100g blawd codi
2 wy
oren
4 llwy fwrdd o fêl
2 goes rhiwbob neu Fafon

Dull

1. Gosodwch y menyn, siwgr, blawd a'r wyau mewn dysgl a chymysgwch nes creu ansawdd llyfn. Yna, ychwanegwch y croen oren.
2. Rhannwch y mêl rhwng cwpanau te wedi'u hiro. Yna ychwanegwch y ffrwythau a rhannwch y gymysgedd sbwng rhwng y cwpanau. Gosodwch y cwpanau ar dun pobi wedyn yn barod i'r ffwrn 190c 375f nwy 5 am 20-25 munud.
3. Trowch allan ar blât a gweinwch gyda hufen iâ. (Rhaid defnyddio cwpanau sy'n addas ar gyfer eu rhoi mewn ffwrn)

Cyw iâr gyda llenwad berw dŵr

75g o ferw dŵr
50g o gaws Stilton
2 llwy fwrdd o sudd lemwn
2 ewyn o garlleg
4 brest cyw iâr
2 wy wedi'u curo
50g o friwsion bara
1 llwy fwrdd o olew

Dull

1. Torrwch y dail berw dŵr yn fân a chymysgwch yn Stwnsh gyda'r caws garlleg a'r lemwn.
2. Gwnewch boced, gyda chyllell finiog, yn y darnau cig a llenwch gyda'r gymysgedd. Gorchuddiwch mewn wy a briwsion .
3. Gosodwch ar dun pobi a sgeintiwch ag olew.
   Pobwch ar wres 200c 400f nwy 6 am 20-25 munud. Gweinwch gyda salad.

Salad bara haf

1/4 torth
1 winwnsyn coch
4 tomato
1/2 ciwcymbr
100g caws
50g o olifau
2 llwy fwrdd o Olew
Sudd lemwn
Ychydig o berlysiau

Dull

1. Torrwch y bara a'r caws yn giwbiau a sleisiwch y winwnsyn, tomato a'r ciwcymbr.
2. Gosodwch y cyfan mewn disgl a'r olifau.
3. Chwyrliwch y sudd lemwn a'r perlysiau ac arllwyswch dros y salad. Cymysgwch a gweinwch yn syth.

Te prynhawn i'r teulu neu anrheg Sul y Tadau

Beth am fwynhau te prynhawn gartref?
Mae'r bocs te yn cynnwys - Amrywiaeth o frechdanau, danteithion safri a melys a chacen gaws.
£10 y bocs
I archebu, ffoniwch
'Cegin Gareth'
01570 422313

Llanwnnen

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Dorian, Lynn, Guto a Gareth, Neuadd Fawr ar golli mam a mam-gu annwyl sef Mrs Heulwen Jones o Synod Inn.

Priodas Arian

Ddiwedd mis Mai dathlodd Richard a Linda Jones, Brynheulog ben-blwydd Priodas Arian. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Llangybi

Ar y Radio

Mwynhaodd Dion Teilo y profiad o gyfrannu tuag at raglen Radio Rocio Richard ar Cymru Fm ar ddydd Sadwrn y 23ain o Fai. Rhaglen 'hunanynysu' disgyblion Ysgol Henry Richard ydoedd fel ymgais i godi calonnau yn ystod y cyfnod anodd hwn. Cawn glywed lleisiau rhieni, staff, disgyblion a thrigolion yr ardal. Diolch i'r ysgol ac i Marci G am drefnu. Gallwch glywed y rhaglen eto ar lein ar Cymru FM neu ar 'Bro360'.

Lampeter Shooting Sports

Cyflenwyr gynnau, reifflau, reifflau awyr, sgopiau, sgopiau golwg nos a monocwlar, dillad saethu, cetris a bwledi.

info@lampetershootingsports.co.uk
www.lampetershootingsports.co.uk

Sgwâr Harford, Llanbed
01570 422288

O'r Cynulliad gan Elin Jones

Wrth ysgrifennu'r erthygl hon, mae'r 'lockdown' yn parhau i Geredigion ac i Gymru, ac mae'r neges yn parhau, sef – arhoswch gartref i arbed ein Gwasanaeth Iechyd, ac i achub bywydau. Mae gweithwyr allweddol trwy gydol y sir, pobl sy'n gweithio yn ein ysbytai, yn ein cymunedau ac yn ein harchfarchnadoedd yn parhau i ymrwymo at gadw pobl yn saff ac i gadw rhyw fath o 'normalrwydd' yn hyn oll. Diolch iddyn nhw i gyd, mae ein dyled yn fawr.

Mae nifer o fusnesau bach hefyd, wrth gwrs, wedi gorfod addasu i'r 'normal newydd' hyn, ac rwy'n ymwybodol bod sawl un yn cynnig gwasanaeth cludo i'r tŷ, a hynny mewn ffordd saff sydd ddim yn ymyrryd â'r polisïau ymbellhau hollbwysig.

Rydym yn dal i aros am ragor o wybodaeth gan y Llywodraeth ynglŷn â chynllun i helpu ffermydd yn ystod hyn. Mae nifer o ffermydd llaeth, er enghraifft, wedi colli cyfle i gyflenwi cwmnïau mawr. Mae yna gynllun cefnogi i ffermwyr llaeth wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, ond mae yna ffermwyr eraill sy'n dal heb fodd i dderbyn cefnogaeth.

Mae nifer fawr o fusnesau twristiaeth wedi cael eu heffeithio'n ddifrifol. Mae fy swyddfa yn parhau i geisio cysylltu gyda'r rhai sydd angen cymorth gyda'r cyrff priodol. Roeddwn yn falch iawn i weld y Cyngor yn gweithio'n galed i sicrhau bod cyllid yn mynd i gynifer o fusnesau twristiaeth yn lleol. Mae nifer o fusnesau wedi gofyn cwestiynau i mi am bynciau nad oedd yn bodoli ddau fis yn ôl. Mae'n broses o ddysgu, ac mae fy swyddfa, sydd yn dal i fod ar agor o bell, yn parhau i geisio rhoi cymorth i bob un sy'n cysylltu.

Fel mae sawl teulu neu gwis yn ei wneud erbyn hyn, mae cyfarfodydd y Senedd yn parhau i gymryd lle dros Zoom. Ac er bod ambell gamgymeriad gyda meiciau pobl sy'n peidio eu diffodd, mae'r gwaith yn parhau gyda scriwtineiddio'r Llywodraeth ar y cynlluniau i warchod pawb rhag Covid19. Mae'n bwysig hefyd nodi, mai Senedd sydd gan Gymru bellach. Ar y 6ed o Fai mi ddaeth y ddeddfwriaeth i rym i ail-enwi'r Cynulliad yn Senedd. Ar ôl 20 mlynedd o wasanaethu Ceredigion fel yr Aelod Cynulliad cyntaf, rwy'n falch i ddweud mai aelod cyntaf o'r Senedd ydw i hefyd. AS - Aelod o'r Senedd neu MS - Member of the Senedd yn y Saesneg. Rwy'n falch iawn i allu parhau i wasanaethu Ceredigion o dan y teitl newydd hwn. Ond er bod y teitl yn newydd, mi fydd y gwaith yn para yn union yr un fath -ac mae'n anrhydedd i'w wneud!

Ysgol Bro Pedr

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont



Llongyfarchiadau i'r Adran Ddylunio a Thechnoleg sydd wedi creu dros fil o 'visors' ar gyfer amddiffyn ein gweithwyr allweddol.

Mae nifer o fechgyn blwyddyn 10 wedi eillio ei gwallt ac wedi codi £700 tuag at waith elusennol – da iawn bois.

Mae Mrs Anita Evans wedi bod yn brysur yn gwnïo gyda'r grŵp 'Scrubs for Bronglais Hospital' – diolch iddi.



Gwnaeth un o Lysgenhadon Urdd yr ysgol sef Elan bl 12 gynorthwyo i gyflwyno Neges Heddwch ac Ewyllys da yr Urdd ar Fai 18 a bu'n trafod y neges ar raglen Dechrau Canu, Dechrau Canmol ar S4C.

Mae disgyblion yr ysgol yn parhau i dderbyn gwaith yn ddyddiol yn ddigidol ac oddi ar wefan yr ysgol. Mae nifer o staff yr ysgol wedi bod yn paratoi negeseuon i'r disgyblion ar ffurf ffilmiau er mwyn codi calon, cyflwyno gwybodaeth a chadw mewn cysylltiad.

Diolch yn fawr iddynt a diolch yn ogystal i'r disgyblion am rannu lluniau ohonynt hwythau yn dysgu sgiliau newydd.

GWASANAETHAU YSWIRIANT
FUW
Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.
Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.
Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG
Swyddfa: 01570 422556
www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

Graham Jones
Gwasanaethau Cyfrifiaduron
* Datrys Problemau a Trwsio
* Ymweliadau Cartref
* Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
* Pherifferolion Ar Werth
* Gwasanaeth Dylunio Gwefan
Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com
graham@tynici.com

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR, COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Tyngrug-ganol,
Cwmsychbant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel shwt mae? Mae'r haul wedi bod yn gwenu arnom yn ystod y mis diwethaf a dwi'n gobeithio'n fawr eich bod chi a'r teulu oll yn cadw'n ddiogel ac yn iach. Rydw i wedi bod wrth fy modd allan yn yr ardd yn plannu blodau lliwgar a chreu den newydd i chwarae ynddo. Beth sydd wedi bod yn eich cadw chi'n brysur yn ddiweddar? Ydych chi wedi cael cyfle i blannu neu adeiladu rhywbeth newydd?

Wel cefais ambell lun arbennig drwy e-bost y mis hwn a phawb wedi bod yn brysur yn lliwio'n lliwgar a thaclus. Roeddwn wrth fy modd gyda llun Elliw Grug Davies o Drefach a hefyd llun arbennig Tryfan Morgans Phillips o Lanbedr Pont Steffan. Ymdrech wych gan y ddau ond yn arbennig ti Tryfan a thithau 'mond yn ddwy a hanner. Dal ati. Ond y llun sy'n dod i'r brig yw un Eli-May. Da iawn chi a llongyfarchiadau mawr i ti Eli-May!

Wel ydych chi fel fi, yn gweld eisiau eich ffrindiau? Neu yn gweld eisiau clywed Miss yn darllen stori i ni? Efallai eich bod chi, fel fi, nawr yn mwynhau dal lan gyda ffrindiau mewn partïon Zoom, neu yn gweld Miss yn darllen stori ar y cyfrifiadur. Cewch ati'r mis hwn i liwio'r llun er mwyn diolch i'r holl athrawon sydd yn gweithio'n galed gan wneud yn siŵr ein bod ni'n dal i gael clywed straeon a chwblhau gwaith arbennig.

Cadwch yn ddiogel.



Enillydd y mis!

Eli-May

DIOLCH YN FAWR

Enw: **Oed:**

Cyfeiriad:

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plentyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo symudol ar gyfer pob achlysur:

- **Bwyd Priodas**
- **Bwffe**
- **Te Angladdau**
- **Digwyddiadau Maes**
- **Peiriant Rhostio Mochyn ar gael**

Bar symudol ar gyfer digwyddiadau allanol boed yn fawr neu'n fach

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?
Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!
Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:
Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol
Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref
Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:
Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)
Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP
M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com
www.richardjarman.tpllp.com
true potential wealth management

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Bag Siopa Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

	7		2			9		
	5		1					2
				7	4			8
	2		6					3
3	1						6	4
6					1		9	
7			8	1				
2					7		3	
		6			9		7	

Ateb Swdocw Mai

Llongyfarchiadau i John Lewis, Llanbadarn Fawr a diolch i bawb arall am gystadlu: Rob Phillips, Llanbed; Elliw Dafydd, Silian; Derek Evans, Llanbed; Richard Evans, Olmarch a Richard Huws, Bontgoch.

4	2	5	7	8	9	1	3	6
3	6	8	4	1	2	5	7	9
1	7	9	6	3	5	8	2	4
9	1	7	5	2	4	6	8	3
5	3	6	8	9	7	2	4	1
8	4	2	3	6	1	9	5	7
6	5	4	1	7	8	3	9	2
7	9	3	2	5	6	4	1	8
2	8	1	9	4	3	7	6	5

Caru Llanybydder

Yn ystod cyfnod y Cloi Mawr diweddar, mae pobl wedi cael cyfle i fynd drwy hen luniau, a thudalennau penodol ar wefannau cymdeithasol yn boblogaidd iawn. Dyma rai lluniau a rannwyd ar dudalen 'Caru Llanybydder' ar facebook y mis hwn.

1 - Llun Côr Llanybydder a bostiwyd gan Margaret Griffiths; 2 - Staff Alltymynydd gan Melfyn Walker; 3 - Bertie Evans gan Gary Davies; 4 - Ffair Llanybydder gan Gareth Davies; 5 - Fi, Nicola Louise Owen a Chris Owen ar y sgwâr gan Sam Hussell; 6 - Carnifal Llanybydder, y frenhines yw Nancy Rhydyfallen, y morwynion yw Ann Dolgwm, Margaret Llwynfedw, fi, a Mair Caemawr gan Jean Pauline Jones; 7 - Gail, Roselle, Mandy a Sian yn cwrdd â'r tywysog gan Melfyn Walker; 8 - Blynyddoedd cyntaf Garej Rhydybont 1958 gan Wynford Davies; 9 - Staff Spar Llanybydder gan Huw Evans.

Caru Llanybydder

10

11

12

13

14

15

16

Ceir amrywiaeth o luniau dros sawl cyfnod ar dudalen 'Caru Llanybydder' ar facebook, yn lluniau du a gwyn a lluniau lliw cynnar. Maent yn dangos bwrlwm cymuned y pentref dros y blynyddoedd. Dyma gasgliad i'w drysori.

10 - Llun Ysgol Llanybydder a bostiwyd gan Huw Evans; 11 - Llun a bostiwyd gan Ieuan Davies; 12 - Eistedd ar sgwâr gwaelod Llanybydder 1987 gan Eleri Bonning; 13 - David Lloyd George yn Eisteddfod 1928 gan Jude Thomas; 14 - Agor Cartref Gofal yr Annedd gan Gareth Davies; 15 - Alison, Gareth a Helen yn tynnu llun gyda Ray Gravell yn Llanybydder gan Mair Thomas; 16 - Pan ddaeth Rali i faes parcio Llanybydder gan Huw Evans; 17 - Sgwâr y Farchnad yn llawn ar Ddydd Carnifal gan Ieuan Davies; 18 - Wedi bod yn edrych ar hen lunie o'dd da Dad a Mam (Rhys a Mair) gan Sharon Tudur.

17

18

Prydferthwch Parc-y-rhos

gan Alun Jones

Amrywiaeth o flodau'r coed yng nghynefin Parc-y-rhos. Fedrwch chi ddyfalu beth yw'r enwau amdanynt?

1 Helygen Lwyd {blodyn fenw}; 2 Cerddinen; 3 Draenen Wen; 4 Derwen; 5 Castanwyddden y Meirch; 6 Masarnen; 7 Helygen Lwyd {blodyn gwrw}; 8 Onnen; 9 Celynnen; 10 Tresi Aur; 11 Rhododendron; 12 Llarwyddden; 13 Pinwyddden yr Alban; 14 Coeden Gnau Ffrengig {blodwyn gwrw}; 15 Cypreswyddden Lawson; 16 Coeden Afal.